

BRITISH COUNCIL

# TUEDDIADAU IEITHOEDD CYMRU 2023

Adroddiad arolwg gan Jayne Duff, Aisling O'Boyle ac Ian Collen

www.britishcouncil.org

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Rhagair gan British Council Cymru | Tud 03 |
| Cyflwyniad | Tud 04 |
| Prif ganfyddiadau 2023 | Tud 04 |
| Cyd-destun a chefndir polisi | Tud 05 |
| Amlinelliad o'r ymchwil | Tud 05 |
| Ffigurau arholiadau cyhoeddus | Tud 06 |
| Canfyddiadau arolwg ysgolion cynradd | Tud 09 |
| Canfyddiadau arolwg ysgolion uwchradd | Tud 18 |
| Canfyddiadau arolwg colegau ôl-16 | Tud 23 |
| Dathlu arfer da | Tud 27 |
| Casgliad | Tud 32 |
| Llyfryddiaeth gyfeiriadol | Tud 34 |
| Atodiad | Tud 35 |

# Rhagair gan British Council Cymru

Mae British Council Cymru yn hybu heddwch a ffyniant drwy feithrin cysylltiadau, dealltwriaeth ac ymddiriedaeth rhwng pobl yng Nghymru a gwledydd ledled y byd. Rydym yn gwneud hyn drwy ein gwaith ym meysydd y Celfyddydau, Addysg a'r iaith Saesneg. Rydym yn cysylltu arweinwyr, myfyrwyr, pobl ifanc, athrawon, artistiaid a sefydliadau yng Nghymru â chymheiriaid o gwmpas byd ac rydym yn sicrhau bod Cymru'n cael ei gweld fel gwlad fywiog ac egnïol yn y Deyrnas Unedig. Mae British Council Cymru yn cyfoethogi bywydau pobl yn eu milltir sgwâr a thramor gan annog creadigrwydd a dyfeisgarwch drwy gydadwaith rhwng syniadau, sgiliau a phrofiadau. Rydym yn credu bod siarad Iaith Ryngwladol yn allweddol i ddeall diwylliannau eraill, cysylltu â phobl a sicrhau twf a ffyniant hirdymor. Felly, waeth bynnag faint o bobl o gwmpas y byd sy'n siarad Cymraeg neu Saesneg, mae angen i ni ymdrechu o hyd i feistroli Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghymru, fel y gallwn fod yn wlad eang ei gorwelion â chysylltiadau byd-eang.

**Ruth Cocks**
Cyfarwyddwr, British Council Cymru

# Cyflwyniad

Mae *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* yn arolwg blynyddol o ysgolion a cholegau ôl-16 sy'n casglu gwybodaeth am sefyllfa addysgu a dysgu ieithoedd. Nod yr ymchwil yma yw: (i) olrhain tueddiadau addysgu a dysgu ieithoedd dros y blynyddoedd; (ii) asesu effaith mesurau polisi o ran Ieithoedd Rhyngwladol[1]; a (iii) dadansoddi cryfderau a gwendidau cyd-destun presennol addysgu a dysgu ieithoedd ar sail data meintiol a sylwadau a barn athrawon. Eleni, cynhaliodd *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* gyfweliadau gyda thri o athrawon - i ddathlu'r arfer rhagorol sydd ar waith mewn dosbarthiadau ledled Cymru. Cafodd arolwg cyntaf *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* ei gynnal yn 2015 ac mae'n rhan o gyfres sydd wedi cael ei chynnal yn rheolaidd yn nhair o bedair awdurdodaeth y Deyrnas Unedig: mae arolwg blynyddol wedi cael ei gynnal yn Lloegr ers 2002, ac arolwg bob dwy flynedd yng Ngogledd Iwerddon ers 2019; gellir cael hyd i adroddiadau blaenorol ar wefan British Council y wlad berthnasol[2]. Mae adroddiadau *Tueddiadau Ieithoedd* yn dangos newidiadau cyffredinol o ran addysgu a dysgu ieithoedd, ac maent yn sbardun i athrawon, arweinwyr ysgolion, academyddion, arolygwyr, llunwyr polisi, disgyblion ysgol a'r cyhoedd i roi ystyriaeth ddyfnach i agweddau o Addysgu a Dysgu Ieithoedd Rhyngwladol.

Llynedd, canfu adroddiad *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2022* mai dim ond un o bob un deg pedwar o'r ysgolion cynradd a ymatebodd oedd mewn sefyllfa i allu addysgu Ieithoedd Rhyngwladol, sydd bellach yn un o ofynion gorfodol y cwricwlwm. Yn yr ysgolion uwchradd, gwelom ddirywiad cyffredinol rhwng 2021 a 2022 yn y nifer oedd yn ymgeisio am TGAU neu Lefel A mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg.

Eleni, cafodd tîm o ymchwilwyr o Brifysgol Queen's yn Belffast eu cytundebu gan British Council Cymru i gynnal arolwg *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2023*. Mae'r tîm wedi gwneud gwaith tebyg i'r British Council yn y gorffennol ac mae'n cynnwys aelodau sydd â phrofiad o addysgu ieithoedd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn y Deyrnas Unedig a thramor.

Ar ran British Council Cymru a Phrifysgol Queen's Belffast, hoffem ddiolch yn ffurfiol a didwyll i'r athrawon a gymerodd ran yn ein gwaith ymchwil. Heb gyfraniad athrawon, ni fyddai ein hymchwil yn bosibl. Diolchwn i chi am eich cefnogaeth barhaus a'ch amser.

## PRIF GANFYDDIADAU 2023

- Nododd saith deg dau y cant o'r ysgolion cynradd a ymatebodd eu bod yn addysgu Iaith Ryngwladol fel rhan o amserlen y cwricwlwm ym mlwyddyn ysgol 2022/23, o'i gymharu â 41 y cant ym mlwyddyn ysgol 2021/22.
- Ffrangeg yw'r iaith fwyaf poblogaidd o hyd a addysgir mewn ysgolion cynradd.
- Mewn ysgolion cynradd, mae 67 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo mai hyfedredd staff mewn ieithoedd yw'r testun pryder mwyaf o ran ateb gofynion y Cwricwlwm Newydd.
- Er gwaetha'r dirywiad yn nifer yr ymgeiswyr ar gyfer TGAU mewn Ffrangeg ac Almaeneg, mae athrawon yn dyfalbarhau o hyd gan arddangos arferion rhagorol wrth addysgu Ieithoedd Rhyngwladol.
- Mae nifer yr ymgeiswyr ar gyfer Lefel A mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg wedi sefydlogi i lefelau tebyg i'r rhai a welwyd cyn y pandemig.
- Mae ysgolion yn gwneud defnydd ardderchog o fentrau sy'n hybu dysgu ieithoedd, er enghraifft Llwybrau at Ieithoedd, Cerdd Iaith a Chynllun Mentora Myfyrwyr Ieithoedd Tramor Modern.

1 Mae hyn yn cyfeirio at ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg.

2 Language Trends England (2023), https://www.britishcouncil.org/research-insight/language-trends-england-2023; Language Trends Northern Ireland (2023), https://nireland.britishcouncil.org/programmes/education/language-trends-northern-ireland.

# Cyd-destun a chefndir polisi

Mae'n dra hysbys bod y British Council *(Languages for the Future, 2017)* wedi nodi mai Sbaeneg, Mandarin, Ffrangeg, Arabeg ac Almaeneg yw'r ieithoedd pwysicaf i'w dysgu o ran sicrhau ffyniant economaidd, a bod Eidaleg, Iseldireg, Portiwgaleg, Siapaneg a Rwsieg hefyd yn cael eu gweld fel ieithoedd pwysig. Fel yr adroddom y llynedd, canfu astudiaeth Ayres-Bennet et al. (2022) bod ieithoedd yn chwarae rhan arwyddocaol mewn masnach ryngwladol a bod methu rhannu iaith gyffredin yn gallu bod yn un o'r rhwystrau di-dariff i fasnach. Un canfyddiad arall a nodwyd gan yr astudiaeth yw bod buddsoddi mewn addysg ieithoedd yn y Deyrnas Unedig, hyd yn oed wrth amcangyfrif yn geidwadol, yn fwy na thebygol o gynnig mwy o werth na chost y buddsoddiad. Er enghraifft, amcangyfrifir bod cymhareb cost a budd hyrwyddo addysg iaith yn Arabeg, Ffrangeg, Mandarin neu Sbaeneg yn 2:1 (o leiaf); sy'n golygu y gallai gwario £1 ddod â £2 yn ôl (Ayres-Bennett et al., 2022). Felly mae'n dal yn bwysicach nag erioed fod gan Gymru weithlu sydd â sgiliau cyfathrebu mewn amrywiaeth eang o ieithoedd - yn ogystal â Chymraeg a Saesneg.

Cafodd arolwg *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2023* ei gynnal mewn cyfnod o newid ym mholisi addysg Cymru; mae'r Cwricwlwm Newydd i Gymru a gyflwynwyd mewn ysgolion cynradd yn 2022 yn dechrau gwreiddio bellach. Ceir gwerthusiad mwy cyflawn o gefndir y polisi yn adroddiad *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2022*. I grynhoi, uchelgais Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu harfogi â'r wybodaeth, sgiliau a phrofiadau i'w galluogi i lwyddo yn y dyfodol. Drwy hynny, mae'r Cwricwlwm Newydd i Gymru yn anelu i sefydlu disgwyliadau cyffredin o ran sut y dylai ysgolion ddatblygu eu cwricwlwm, gan gynnwys ail enwi 'Ieithoedd Tramor Modern' yn 'Ieithoedd Rhyngwladol' *(Llywodraeth Cymru, 2021)*. Bellach, ystyrir bod Ieithoedd Rhyngwladol yn golygu ieithoedd y cartref a chymunedau, ieithoedd modern, ieithoedd clasurol ac Iaith Arwyddion Prydain. Nod y dull amlieithog hwn sy'n sail i'r Cwricwlwm Newydd yw hybu cariad oes at ieithoedd, gan gynnwys Cymraeg, Saesneg ac Ieithoedd Rhyngwladol Eraill. Rhagwelir y bydd Maes Dysgu a Phrofiad 'Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu' yn dod ag ieithoedd ynghyd - i feithrin dysgwyr creadigol ac uchelgeisiol, a hefyd i ddatblygu sgiliau cyfathrebu a sgiliau datrys problemau sy'n amhrisiadwy ac a fydd yn grymuso dysgwyr ieithoedd ym mhob agwedd ar fywyd.

Ffrangeg, Sbaeneg ac Almaeneg yw'r Ieithoedd Rhyngwladol mwyaf poblogaidd yn system addysg Cymru o hyd. Mae prinder llwybrau cynnydd i brifysgolion lleol i astudio ieithoedd heblaw'r tair iaith yma, ynghyd â phrinder darpariaeth ieithoedd ar lefel Addysg Bellach (gweler Collen et al., 2023) yn golygu bod sicrhau amrywiaeth o ran y tystysgrifau mewn Ieithoedd Rhyngwladol a enillir yn y system ysgolion yng Nghymru yn her. Er gwaetha'r heriau systemig hyn sy'n gallu bod yn rhwystr i ymdrechion athrawon, mae'r adroddiad yma'n amlygu'r arfer rhagorol sydd ar waith ym maes Ieithoedd Rhyngwladol mewn ysgolion a dosbarthiadau ledled Cymru.

## AMLINELLIAD O'R YMCHWIL

Cyn casglu'r data, cafwyd cymeradwyaeth foesegol gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Addysg a Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Queen's Belffast. Cydsyniodd yr holl gyfranogwyr yn wirfoddol a gwybodus i gymryd rhan. Cynhaliwyd yr ymchwil i'r safonau moesegol uchaf.

Y cwestiwn a ddefnyddiwyd i lywio'r ymchwil oedd 'Beth yw cyflwr presennol addysgu Ieithoedd Rhyngwladol mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a cholegau ôl-16 yng Nghymru?'. I ateb y cwestiwn defnyddiwyd dulliau cymysg, gan adeiladu ar adroddiadau *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* blaenorol a defnyddio methodoleg debyg i'r rheini a ddefnyddiwyd yn ddiweddar i lunio adroddiadau *Tueddiadau Ieithoedd Lloegr a Thueddiadau Ieithoedd Gogledd Iwerddon.* Roedd y dulliau ymchwil yn cynnwys tri arolwg gwahanol; roedd un yr un ar gyfer pob sector ysgol/coleg; ac roeddynt ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Roedd yr arolygon yn cynnwys rhai cwestiynau caeedig a fyddai'n cael eu dadansoddi'n feintiol, a rhai cwestiynau agored i hwyluso sylwebaeth ansoddol. I adlewyrchu arfer gorau o ran addysgu Ieithoedd Rhyngwladol, cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig gyda thri o athrawon dosbarth a ddewiswyd drwy ddull samplu bwriadus.

Cafodd cwestiynau'r arolwg eu datblygu gan y tîm ymchwil yn gynnar yn 2022; cawsant eu mireinio drwy ymgyngori â grŵp o randdeiliaid a gasglwyd ynghyd gan British Council Cymru. Cafodd yr arolygon eu ebostio i 957 o ysgolion cynradd, 178 o ysgolion uwchradd ac 11 o golegau ôl-16 yng Nghymru yn haf 2023. Fe'u danfonwyd at sylw'r 'Pennaeth' (yn achos yr ysgolion cynradd) a 'Pennaeth Ieithoedd Tramor Modern / Pennaeth Ieithoedd Rhyngwladol' (yn achos yr ysgolion uwchradd a'r colegau ôl-16). Ni wnaethom gysylltu â phob ysgol gynradd yng Nghymru (n=1213), gan nad oedd modd cael rhestr gyflawn o gyfeiriadau ebyst oedd ar gael i'r cyhoedd o ysgolion cynradd.

Hefyd, roedd doleni i holiadur yr arolwg ar gael am y tro cyntaf ar gyfryngau cymdeithasol British Council Cymru.

Gofynnwyd i ysgolion gyflwyno un ymateb yn unig yn enw'r ysgol; mewn achosion lle derbyniwyd mwy nag un ymateb o'r un sefydliad, defnyddiwyd yr ymateb cyntaf a dderbyniwyd ar gyfer y set data. Wrth lunio'r arolwg, defnyddiwyd ystadegau disgrifiadol i ddadansoddi'r cwestiynau caeedig, tra defnyddiwyd dull dadansoddi thematig o'r sylwadau a gafwyd yn y cwestiynau a oedd yn gofyn am ymateb agored. Cafodd y cyfweliadau eu cynnal ar-lein, cyn cael eu trawsgrifio a'u dadansoddi gan ddefnyddio dull dadansoddi cynnwys syml.

O'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, mae'r nifer o ymatebion a dderbyniwyd gan ysgolion cynradd ychydig yn is eleni (2 y cant yn is), ac ychydig yn uwch o ran ymatebwyr uwchradd:

| | Sail | Cyrhaeddiad | Cyfradd ymateb % |
|---|---|---|---|
| Arolwg Ysgolion Cynradd | 957 | 75 | 8% |
| Arolwg Ysgolion Uwchradd | 178 | 67 | 38% |
| Arolwg Colegau Ôl-16 | 11 | 8 | 73% |

Tabl 1: Cyfraddau ymateb

## FFIGURAU ARHOLIADAU CYHOEDDUS

Cyn cyfres arholiadau 2023, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru fwriad y dylai canlyniadau eleni fod, yn fras, hanner ffordd rhwng canlyniadau 2019 a 2022. Gwelwyd gostyngiad o 3.3 y cant yn nifer yr ymgeiswyr ar gyfer TGAU o 2022 i 2023; ond yn gyffredinol, o'u cymharu â ffigurau 2019 gwelir cynnydd o 0.7 y cant yn nifer yr ymgeiswyr yn 2023. O ran y gyfran gyffredinol o ymgeiswyr TGAU yng Nghymru a enillodd radd C/4 neu uwch, gwelwyd gostyngiad o 68.2 y cant yn 2022, i 64.5 y cant yn 2023. Ond, roedd cyfran yr ymgeiswyr a enillodd radd C/4 neu uwch yn arholiadau Ieithoedd Rhyngwladol CBAC fel a ganlyn: Ffrangeg, 83.3 y cant; Almaeneg, 86.9; a Sbaeneg, 74.8 y cant. Mae'r ystadegau hyn yn cyfnerthu'r dystiolaeth bresennol sy'n dangos mai disgyblion sy'n ennill graddau uwch na'r cyfartaledd sy'n dewis astudio Ieithoedd Rhyngwladol.


Rhwng 2022 a 2023, mae nifer yr ymgeiswyr ar gyfer TGAU yn Ffrangeg ac Almaeneg wedi lleihau o 24.9 y cant a 26 y cant yn y drefn honno. Mae'r ffigurau ar gyfer ymgeiswyr yn Sbaeneg yn parhau i ddilyn patrwm afreolaidd nas gwelir yn unman arall yn y Deyrnas Unedig. Mewn cymhariaeth, gwelwyd cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr ar gyfer TGAU mewn economeg ac astudiaethau busnes o 58.8 y cant a 30.3 y cant yn y drefn honno. Ni ellir priodoli'r newid yma i'r gostyngiad yn niferoedd disgyblion; yn hytrach mae'n adlewyrchu'r ffaith bod disgyblion yn dewis pynciau sy'n well ganddynt, ynghyd ag ystyriaethau systemig. Mae'n bwysig nodi bod y gostyngiad yn y nifer sy'n dewis Almaeneg yn debyg i'r hyn a welwyd yng Ngogledd Iwerddon (-23 y cant) felly nid yw Cymru yn rhydd rhag y ffenomen hon.

Mae Ffigur 2 yn dangos bod nifer yr ymgeiswyr ar gyfer Ieithoedd Modern Eraill fwy neu lai wedi dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig; mae hyn yn newyddion da, ac mae'n dangos bod llawer o siaradwyr ieithoedd eraill yn gallu ennill cymhwyster.


Mae Ffigur 3 yn dangos twf bach ond calonogol yn nifer yr ymgeiswyr ar gyfer Lefel A mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg. Wrth gwrs, mae'r niferoedd yn rhy fach i bod yn arwyddocaol o ran yr ystadegau, ond mae'n dangos bod y llanw wedi troi ac mae hynny i'w groesawu.

Fel y gwelwyd gyda TGAU, mae'r duedd o ran y nifer o ymgeiswyr ar gyfer Lefel A mewn Ieithoedd Modern Eraill hefyd yn symud i'r cyfeiriad cywir; mae hyn yn newydd calonogol ac mae angen adeiladu yn strategol ar hyn yn y dyfodol.


Ffigur 1: Nifer yr ymgeiswyr ar gyfer TGAU mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg 2015-2023 (ffynhonell JCQ 2015-2022 a Chymwysterau Cymru (dros dro) 2023)





Ffigur 2: Nifer yr ymgeiswyr ar gyfer TGAU mewn ieithoedd heblaw Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg a Chymraeg 2015 – 2023 (ffynhonell JCQ 2015-2022 a Chymwysterau Cymru (dros dro) 2023)



Ffigur 3: Nifer yr ymgeiswyr ar gyfer Lefel A mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg 2015 – 2023 (ffynhonell JCQ 2015-2022 a Chymwysterau Cymru (dros dro) 2023)




Ffigur 4: Nifer yr ymgeiswyr ar gyfer Lefel A mewn ieithoedd heblaw Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg a Chymraeg 2015 – 2023 (ffynhonell JCQ 2015-2022 a Chymwysterau Cymru (dros dro) 2023)



# Canfyddiadau arolwg ysgolion cynradd

## PROFFIL YR YSGOLION A YMATEBODD


Nododd cyfrifiad ysgolion 2023 bod 1,213 o ysgolion cynradd gwladol yng Nghymru, a 262,666 o ddisgyblion. Mae mwyafrif yr ysgolion yn Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin yn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Yn yr 18 o awdurdodau lleol eraill, mae mwyafrif yr ysgolion yn rhai cyfrwng Saesneg, lle siaredir cyfuniad o Gymraeg a Saesneg.

Ar ôl adolygu'r setiau data ac wedi neilltuo ymatebion lluosog o'r un ysgol, roedd gyda ni 75 o ymatebion i'r arolwg y gallem eu defnyddio. Roedd 11 o'r rhain yn y Gymraeg a 64 yn Saesneg. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cael eu cynnwys yn ein set data terfynol (gweler Tabl 2).

| Lleoliad daearyddol | Yn cynnwys awdurdodau lleol.. | Nifer yr ysgolion a ymatebodd (cyfanswm n=75) |
|---|---|---|
| Gogledd Cymru | Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir Fflint, Wrecsam | 21 |
| De Orllewin a Chanolbarth Cymru | Powys, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot | 13 |
| Canol De Cymru | Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerdydd | 20 |
| De Ddwyrain Cymru | Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd | 21 |

Tabl 2: Lleoliad daearyddol yr ysgolion a gymerodd ran

Tabl 2: Lleoliad daearyddol yr ysgolion a gymerodd ran




## Prydau ysgol am ddim

Yn 2019, cyflwynodd Llywodraeth Cymru bolisi gwarchodaeth drosiannol newydd ar gyfer prydau ysgol am ddim i sicrhau bod prydau ysgol am ddim i ddisgyblion yn cael eu gwarchod yn ystod cyfnod cyflwyno Credyd Cynhwysol. Bydd y warchodaeth yma'n parhau tan ddiwedd eu cyfnod ysgol presennol, sef diwedd eu cyfnod mewn ysgol gynradd neu ddiwedd eu cyfnod mewn ysgol uwchradd. Bydd unrhyw ddisgybl a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim pan gyflwynwyd y polisi ar 1 Ebrill 2019 yn cael eu cynnwys dan adain y warchodaeth drosiannol hefyd. Yn ogystal, mae unrhyw ddisgybl a ddaeth yn gymwys ar unrhyw adeg yn ystod y broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol yn cael ei warchod dan y meini prawf cymhwysedd newydd.

Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'r hawl i gael prydau ysgol am ddim yn cael ei ymestyn i bob plentyn mewn ysgol

gynradd. Dechreuwyd rhoi'r polisi yma ar waith ym mis Medi 2022, gyda'r dysgwyr ifancaf yn yr ysgolion cynradd yn derbyn prydau ysgol am ddim i ddechrau *(Llywodraeth Cymru, 2021a)*. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu prydau ysgol am ddim i bob disgybl cynradd erbyn 2024 *(Llywodraeth Cymru, 2023a)*.

Yn ôl y data diweddaraf sydd ar gael ar adeg llunio'r adroddiad hwn, roedd 102,391 o ddisgyblion (26.9 y cant) rhwng 5 a 15 oed yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim neu'n cael gwarchodaeth drosianol *(Llywodraeth Cymru, 2023b)*. Mae hwn yn gynnydd a gofnodwyd o 95,532 o ddisgyblion (25.2 y cant) ym mis Ebrill 2021. Mae dull Llywodraeth Cymru o gofnodi'r data yma ar gyfer disgyblion rhwng 5 a 15 oed yn ei gwneud hi'n anodd cymharu union sefyllfa'r ysgolion cynradd ac uwchradd a ymatebodd i'n harolwg. Ar sail data'r Cyfrifiad sydd ar gael yn gyhoeddus, amcangyfrifom bod ein hymatebwyr yn disgyn i'r cwantiliau canlynol:

| Cwantil | Cwantil % | Canran y nifer a ymatebodd i'n harolwg |
|---|---|---|
| 1 – y lleiaf difreintiedig | 0 - 11.8% | 27% |
| 2 | 11.9% -18.7% | 21% |
| 3 | 18.8% - 26.3% | 18% |
| 4 | 26.4% - 37.4% | 12% |
| 5 – y mwyaf difreintiedig | 37.5% ac uwch | 22% |

Tabl 3: Cwantiliau Prydau Ysgol Am Ddim ar gyfer ysgolion cynradd

Mewn ymateb delfrydol i arolwg fel hwn, byddai cynrychiolaeth o 20 y cant ar gyfer pob cwantil. Mae'r ffaith bod ysgolion lle mae llai o ddisgyblion na'r cyfartaledd yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim yn fwy tueddol o ymateb i'r arolwg yn golygu y gall data'r adroddiad hwn bod yn fwy ffafriol na'r wir sefyllfa mewn llawer o ysgolion.

## IEITHOEDD RHYNGWLADOL AR GWRICWLWM YSGOLION CYNRADD


Ym mlwyddyn ysgol 2022/23, nododd 72 y cant o'r ysgolion cynradd a ymatebodd (n=75) eu bod yn addysgu Iaith Ryngwladol o fewn amser y cwricwlwm. Mae hwn yn gynnydd sylweddol ar ffigur y llynedd o 41 y cant *(Tueddiadau Ieithoedd Cymru, 2022)*. Wrth reswm, mae'n mynd i gymryd amser i bob ysgol roi'r newidiadau hyn ar waith yn eu cwricwlwm.[3] O'r 72 y cant o ysgolion a ymatebodd sy'n addysgu ieithoedd, mae 57 y cant newydd ddechrau addysgu ieithoedd yn y flwyddyn ysgol gyfredol, gan amlygu effaith y Cwricwlwm Newydd i Gymru a gyflwynwyd am y tro cyntaf ym mis Medi 2022.[4] Dim ond tri o'r ysgolion cynradd a ymatebodd sydd wedi bod yn addysgu Ieithoedd Rhyngwladol ers mwy na 5 mlynedd. Roedd 17 y cant wedi dechrau addysgu ieithoedd 1-2 mlynedd yn ôl, tra nododd 20 y cant eu bod wedi dechrau addysgu ieithoedd 3-5 mlynedd yn ôl.

Fel y gwelwyd mewn fersiynau blaenorol o *Dueddiadau Ieithoedd Cymru*, yr iaith fwyaf poblogaidd o hyd a addysgir mewn ysgolion cynradd yw Ffrangeg - gyda Sbaeneg yn ail agos. O ran Ieithoedd Rhyngwladol Eraill, nododd ymatebwyr o ysgolion cynradd eu bod yn addysgu Makaton, Wcraneg ac Iaith Arwyddion Prydain

3 Mae cymorth a chanllawiau i helpu ysgolion cynradd i integreiddio Ieithoedd Rhyngwladol i'w cwricwlwm ar gael yma: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu/

4 Mae'r Cwricwlwm Newydd i Gymru 2022 yn nodi bod rhaid i bob ysgol gynradd addysgu Iaith Ryngwladol.

Ffigur 6: Canran yr Ieithoedd Rhyngwladol a gynigir yn yr ysgolion cynradd a ymatebodd (sy'n addysgu Ieithoedd Rhyngwladol) ym Mlynyddoedd 3 a 6





Mewn ysgolion lle addysgir ieithoedd, ac yn y grwpiau blwyddyn mewn ysgolion lle addysgir ieithoedd, nododd yr athrawon cynradd a ymatebodd i'r arolwg faint o amser a roddir i addysgu ieithoedd bob wythnos (gweler isod):

| Grŵp Blwyddyn | Dim amser | Llai na 30 munud | 30 - 45 munud | 46 munud - 1 awr | Rhwng 1 a 2 awr | Mwy na 2 awr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Blynyddoedd cynnar | 17% | 66% | 14% | 3% | 0% | 0% |
| Blwyddyn 1 | 17% | 44% | 31% | 5% | 3% | 0% |
| Blwyddyn 2 | 8% | 42% | 36% | 11% | 3% | 0% |
| Blwyddyn 3 | 2% | 30% | 42% | 19% | 7% | 0% |
| Blwyddyn 4 | 2% | 25% | 42% | 22% | 9% | 0% |
| Blwyddyn 5 | 0% | 18% | 41% | 25% | 16% | 0% |
| Blwyddyn 6 | 0% | 19% | 43% | 24% | 14% | 0% |

Tabl 4: Yr amser a roddir i ieithoedd ar draws grwpiau blwyddyn yn wythnosol (cyfrifwyd y % ar sail yr ysgolion a ymatebodd i'r arolwg fesul grŵp blwyddyn)


Ni nododd unrhyw ysgol eu bod yn gwario mwy na dwy awr yn addysgu ieithoedd. Mae'r amser a roddir i ieithoedd yn amrywio ar draws y grwpiau blwyddyn; gyda'r rhan fwyaf o grwpiau blwyddyn yn gwario llai na 30 munud, neu 30-45 munud, ar ieithoedd. Fel y dengys Tabl 4, erbyn blynyddoedd 4, 5 a 6, mae tua chwarter yr ysgolion a ymatebodd yn gwario rhwng 46 munud ac awr yr wythnos ar Ieithoedd Rhyngwladol. Awgryma ymchwil blaenorol gan Graham et al. (2017) bod angen awr o ddysgu'r wythnos ar ddisgyblion cynradd i sicrhau cynnydd mesuradwy mewn Iaith Ryngwladol. Nododd 43 y cant o ysgolion bod eu disgyblion yn cael y dyraniad llawn o amser ar gyfer dysgu Ieithoedd Rhyngwladol yn amserlen yr ysgol bob wythnos yn ystod blwyddyn ysgol 2022/23. Nid yw dysgwyr yn cael y dyraniad llawn o amser ar gyfer dysgu ieithoedd yn yr amserlen mewn 20 y cant o'r ysgolion a ymatebodd, gostyngiad o 5 y cant ers *Tueddiadau Ieithoedd 2022*. Nid oedd gweddill yr ysgolion a ymatebodd yn gwybod os oedd eu dysgwyr yn derbyn y dyraniad llawn o amser (24 y cant), tra nododd yr athrawon hynny a nododd 'arall' (13 y cant) naill ai bod dysgwyr yn derbyn y dyraniad llawn pan fo hynny'n bosib, neu nad yw Ieithoedd Rhyngwladol wedi'u cynnwys yn yr amserlen eto.

Ffigur 7: Sut mae ysgolion cynradd yn asesu lefelau cynnydd o ran dysgu Ieithoedd Rhyngwladol yn 2022 a 2023




Dywedodd mwy na hanner yr ysgolion cynradd a ymatebodd ac a oedd yn addysgu ieithoedd ym mlwyddyn ysgol 2022/23 nad ydynt yn asesu na chofnodi cynnydd dysgwyr mewn Ieithoedd Rhyngwladol; mae hyn yn gynnydd o dros 10 y cant o'r ffigur a nodwyd yn *Nhueddiadau Ieithoedd Cymru 2022.* Dim ond un ysgol sy'n asesu pob dysgwr yn ffurfiol, tra bod 28 y cant yn asesu eu dysgwyr yn anffurfiol. Yn hytrach nag asesu dysgwyr yn unigol roedd 11 y cant o ysgolion yn cadw cofnodion o gynnydd ieithyddol, sy'n cyferbynnu'n amlwg â ffigur y llynedd, sef 35 y cant (gweler Ffigur 7). Nododd 39 y cant o'r ysgolion a ymatebodd bod safonau a gallu o ran Ieithoedd Rhyngwladol ar ddiwedd Blwyddyn 6 i'w gweld yn gwella mewn cohortau olynol o ddysgwyr, tra nododd 15 y cant eu bod yn credu fod y safonau fwy neu lai'r un peth. Ond, nododd sawl athro/athrawes nad oedd modd dwyn cymhariaeth, gan mai hon oedd eu blwyddyn gyntaf yn addysgu Ieithoedd Rhyngwladol. Bydd yn ddiddorol felly i fapio'r newidiadau mewn adroddiadau *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* yn y dyfodol.

Ffigur 8: Yn eich barn chi, ydy safonau (h.y gallu ieithyddol) Ieithoedd Rhyngwladol ar ddiwedd Blwyddyn 6 i'w gweld yn gwella ar ddiwedd Blwyddyn 6 mewn cohortau olynol o ddysgwyr yn eich ysgol?




## PWY SY'N ADDYSGU IEITHOEDD MEWN YSGOLION CYNRADD?

Yn yr ysgolion hynny a oedd yn addysgu Ieithoedd Rhyngwladol yn 2022/23 ac a ymatebodd i'r arolwg, nododd 74 y cant bod y pwnc yn cael ei gyflwyno gan athrawon dosbarth; mae hynny'n adleisio canfyddiadau *Tueddiadau Ieithoedd 2022*, lle nododd bron i ddwy ran o dair o'r ysgolion a ymatebodd mai athrawon dosbarth oedd yn addysgu gwersi iaith. Mae gweddill yr ysgolion a ymatebodd yn nodi eu bod yn dibynnu ar arbenigwyr allanol, cysylltiadau ag ysgolion uwchradd, cynorthwywyr addysgu ac athrawon CPA. Mae ychydig dros hanner yr athrawon sy'n cyflwyno Ieithoedd Rhyngwladol wedi manteisio ar gyfleoedd Dysgu Proffesiynol ar gyfer ieithoedd penodol yn ystod y flwyddyn ysgol ddiwethaf, gan adael 48 y cant o athrawon sydd heb gael mynediad i hyfforddiant o'r fath hyd yma.

## IEITHOEDD RHYNGWLADOL – GOFYNIAD STATUDOL

Yn dilyn cyflwyno'r Cwricwlwm Newydd i Gymru mewn ysgolion cynradd ym mlwyddyn ysgol 2022/23, mae gofyn i bob ysgol gynradd addysgu Iaith Ryngwladol fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad 'Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu' *(Llywodraeth Cymru 2021b)*. Atebodd pob un o'r 75 ysgol gynradd a ymatebodd (h.y. y rheini a oedd yn addysgu Ieithoedd Rhyngwladol yn 2022/23, a'r rheini nad oedd yn gwneud) ddau gwestiwn ynglyn â pha mor barod yr oeddynt ar gyfer y Cwricwlwm Newydd a'r gofyniad statudol i addysgu Ieithoedd Rhyngwladol o fis Medi 2022 ymlaen (gweler Tabl 5 a Ffigur 9).


Yn gyntaf, gofynnom i'r ysgolion ddewis y gosodiad sy'n disgrifio orau eu dull gweithredu o ran addysgu Ieithoedd Rhyngwladol ym mlwyddyn ysgol 2022/23 (gweler Tabl 5). Er mai dim ond 7 y cant o'r ysgolion a ymatebodd oedd yn teimlo nad oeddynt mewn sefyllfa i addysgu Ieithoedd Rhyngwladol, roedd 40 y cant o'r ysgolion yn nyddiau cynnar y gwaith o gynllunio eu darpariaeth ar gyfer addysgu Iaith Ryngwladol (gweler Tabl 5). Mae hyn yn debyg i'r data a gasglwyd y llynedd - lle nad oedd 7 y cant mewn sefyllfa i addysgu Ieithoedd Rhyngwladol, ac roedd 43 y cant yn nyddiau cynnar y gwaith o gynllunio eu darpariaeth Ieithoedd Rhyngwladol *(Tueddiadau Ieithoedd Cymru, 2022)*. Mae bron i draean o'r ysgolion a ymatebodd eleni yn cynllunio i sicrhau bod eu dysgwyr yn gwneud cynnydd mewn un Iaith Ryngwladol i gyd-fynd â chynnig ieithoedd eu hysgolion uwchradd lleol, tra bod 15 y cant yn cynllunio i gyflwyno sawl Iaith Ryngwladol i'w dysgwyr. O ran yr athrawon hynny a roddodd yr ateb 'arall' ar gyfer y cwestiwn yma, maent yn nodi amrywiaeth o ddulliau gweithredu: addysgu cyfuniad o Iaith Ryngwladol ac Iaith Arwyddion Prydain; defnyddio Clybiau ar ôl Ysgol i gyflwyno ieithoedd; neu addysgu ieithoedd nad ydynt o anghenraid yn cael eu cynnig yn yr ysgol uwchradd leol.

Gofynnwyd i'r ysgolion pa mor barod oeddynt i gynnwys Iaith Ryngwladol fel rhan o'u cwricwlwm ym mis Medi 2022 (gweler Ffigur 9). Eleni, nododd y rhan fwyaf o'r ysgolion a ymatebodd eu bod yn barod iawn i gynnwys Iaith Ryngwladol ar eu cwricwlwm (29 y cant o'i gymharu â 17 y cant yn 2022); bodd bynnag, roedd gweddill yr ymatebwyr naill ai'n teimlo yn lled barod (44 y cant) neu ddim yn barod (27 y cant) i gyflwyno Ieithoedd Rhyngwladol.

| | |
|---|---|
| Nid ydym mewn sefyllfa i addysgu Ieithoedd Rhyngwladol | 7% |
| Rydym yn nyddiau cynnar y gwaith o gynllunio ein darpariaeth i addysgu Iaith Ryngwladol | 40% |
| Rydym yn bwriadu i'n dysgwyr wneud cynnydd mewn un Iaith Ryngwladol - i gyd-fynd â chynnig ieithoedd ein hysgol uwchradd leol | 29% |
| Rydym yn bwriadu cyflwyno dysgwyr i sawl Iaith Ryngwladol | 15% |
| Rydym yn bwriadu addysgu Iaith Arwyddion Prydain | 1% |
| Ddim yn gwybod | 0% |
| Arall (nodwch os gwelwch yn dda) | 8% |

Tabl 5: Yn y flwyddyn ysgol gyfredol (2022/23), pa ddatganiad sy'n rhoi'r disgrifiad gorau o'ch dull gweithredu ar gyfer addysgu Ieithoedd Rhyngwladol?

Ffigur 9: Pa mor barod oedd eich ysgol ym mis Medi 2022 i gynnwys Iaith Ryngwladol yn unol â gofyniad statudol y Cwricwlwm i Gymru 2022?




| | |
|---|---|
| Blynyddoedd Cynnar | 27% |
| Blwyddyn 1 | 36% |
| Blwyddyn 2 | 44% |
| Blwyddyn 3 | 60% |
| Blwyddyn 4 | 65% |
| Blwyddyn 5 | 77% |
| Blwyddyn 6 | 77% |
| Nid ydym mewn sefyllfa i addysgu Ieithoedd Rhyngwladol i unrhyw grŵp blwyddyn yn 2022/23. | 13% |

Tabl 6: Nodwch pa grwpiau blwyddyn y gwnaethoch chi gynllunio ar gyfer addysgu Iaith Ryngwladol iddynt ym mis Medi 2022? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.

Yn arolwg *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2022,* gofynnom i ysgolion pa ieithoedd yr oeddynt yn bwriadu eu haddysgu yn 2022/23. Nododd 66 y cant o'r ysgolion eu bod yn bwriadu addysgu Ffrangeg, nododd 13 y cant eu bod yn bwriadu addysgu Sbaeneg, a 9 y cant eu bod yn bwriadu dysgu Iaith Arwyddion Prydain fel eu prif iaith. Eleni, pan ofynnwyd pa Ieithoedd Rhyngwladol oedd yn cael eu haddysgu ym mlwyddyn ysgol 2022/23, nododd ychydig dros 50 y cant mai Ffrangeg oedd y brif iaith, a nododd 28 y cant mai Sbaeneg oedd eu dewis. Roedd 5 y cant o'r ysgolion a ymatebodd yn addysgu naill ai Almaeneg, Eidaleg, Siapaneg neu Fandarin fel eu prif Iaith Ryngwladol. Dim ond 3 y cant o'r ysgolion a ymatebodd oedd yn addysgu Iaith Arwyddion Prydain, ond nid oedd yr un ysgol a ymatebodd yn addysgu iaith hynafol fel eu prif Iaith Ryngwladol neu iaith ychwanegol. Roedd ychydig yn llai na 30 y cant o'r ysgolion a ymatebodd hefyd yn addysgu un o blith Iaith Arwyddion Prydain, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg neu Sbaeneg fel iaith ychwanegol.

## HERIAU ATEB GOFYNION NEWYDD Y CWRICWLWM I GYMRU O RAN IEITHOEDD RHYNGWLADOL

Am yr ail flwyddyn yn olynol, roedd ein harolwg yn gofyn i athrawon am yr heriau y maent yn eu hwynebu wrth ateb gofynion newydd Cwricwlwm i Gymru 2022 ac addysgu gorbodol ieithoedd fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad 'Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu *(Llywodraeth Cymru, 2021b).* Caniatawyd rhoi mwy nag un ateb, fel y gwelir yn nhabl 7.
Gan ategu canfyddiadau adroddiad *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2022*, y pryder mwyaf o hyd yw hyfedredd staff mewn ieithoedd (nododd 65 y cant o ymatebwyr yn 2022 a 67 y cant yn 2023 bod hynny'n her). Yn ail i hynny oedd y pryder am orbod cystadlu â'r Gymraeg a'r Saesneg am amser cwricwlwm (52 y cant yn 2022, a 57 y cant yn 2023).

| | |
|---|---|
| Hyfedredd staff mewn Ieithoedd Rhyngwladol | 67% |
| Cystadlu am amser cwricwlwm gyda Chymraeg a Saesneg | 57% |
| Dim digon o amser cwricwlwm yn gyffredinol | 53% |
| Yr angen i ganolbwyntio amser yn y cwricwlwm ar 'ddal i fyny' mewn pynciau eraill yn sgil Covid-19 | 39% |
| Ariannu ac adnoddau | 39% |
| Ffeindio athrawon sy'n gallu addysgu Iaith Ryngwladol | 35% |
| Cyfle i fanteisio ar Ddysgu Proffesiynol ar gyfer iaith benodol | 21% |
| Effaith Covid-19 | 15% |
| Nid ydym yn wynebu unrhyw heriau penodol | 8% |
| Sicrhau cefnogaeth gan rieni | 8% |


Tabl 7: Heriau a wynebir gan athrawon wrth geisio ateb gofynion y Cwricwlwm Newydd i Gymru 2022 (caniatawyd mwy nag un ateb)

Ym mlwyddyn ysgol 2022/23, staff yr ysgolion a ymatebodd oedd yn bennaf gyfrifol am addysgu Ieithoedd Rhyngwladol - naill ai Athrawes/Athro (55 y cant) neu Uwch Athrawes/Athro (11 y cant) neu Ddirprwy neu Bennaeth (10 y cant). Dim ond 24 y cant o'r ysgolion a ymatebodd a nododd bod gan y person oedd â chyfrifoldeb cyffredinol am Ieithoedd Rhyngwladol gymhwyster TGAU neu gymhwyster cyfatebol mewn iaith. Mae hynny'n gwrthgyferbynnu'n amlwg *â Thueddiadau Ieithoedd Cymru 2022* lle nododd 42 y cant o ysgolion bod gan yr athrawes/athro â chyfrifoldeb cyffredinol am Ieithoedd Rhyngwladol gymhwyster TGAU neu Lefel A. Er bod gan 20 y cant Lefel A neu gymhwyster cyfatebol ac er bod gradd mewn Iaith neu Ieithoedd Rhyngwladol gan 15 y cant, does gan dros chwarter yr athrawon sy'n gyfrifol am addysgu ieithoedd yn yr ysgolion a ymatebodd ddim cymhwyster ffurfiol. Ymysg y cymwysterau eraill oedd gan athrawon yn yr ysgolion a ymatebodd roedd: Tystysgrif Ganolradd BI mewn Ffrangeg; cymhwyster mewn iaith arall nad sy'n cael ei haddysgu yn yr ysgol; Cymhwyster TELT neu CiLT Cymru. Er bod gan dros 50 y cant o'r ysgolion cynradd a ymatebodd gysylltiad gydag un, rhai neu bob un o'u hysgolion uwchradd lleol, nid oes cysylltiad rhwng 47 y cant o'r ysgolion cynradd a ymatebodd ag adrannau iaith eu hysgolion uwchradd lleol. Dengys hyn ostyngiad o 7 y cant yn y cysylltiad rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd a ymatebodd i'r arolwg ers cyhoeddi *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2022.*

## Y DIMENSIWN RHYNGWLADOL MEWN YSGOLION CYNRADD

Ar nodyn cadarnhaol, rydym yn nodi bod y data a gasglwyd eleni'n dangos cynnydd yn nifer y cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu'n rhyngwladol sydd ar gael i ddysgwyr ac athrawon mewn ysgolion. Er bod gwaith i'w wneud eto yn y maes yma gan bod 56 y cant o'r ysgolion a ymatebodd yn dweud na fu unrhyw ymgysylltu rhyngwladol ganddynt o gwbl, mae'n werth nodi bod y ffigur yma wedi lleihau o 8 y cant ers *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2022*. Bu cynnydd o 10 y cant yn y nifer sydd wedi manteisio ar ddigwyddiadau a hyfforddiant a gynigir gan y British Council (19 y cant yn 2023, o'i gymharu â 9 y cant yn 2022). Enghraifft o hyn yw Cerdd Iaith, adnodd addysgu a dysgu a chwrs hyfforddi i athrawon i'w helpu i ddatblygu sgiliau pellach ar gyfer cyflwyno Ieithoedd Rhyngwladol - law yn llaw â Chymraeg a Saesneg. Ar wahân i'r gweithgareddau ymgysylltu a ddangosir yn y siart isod (Ffigur 10), mae rhai ysgolion yn nodi eu bod yn ymgysylltu'n rhyngwladol drwy weithgareddau eraill; roedd y rhain yn cynnwys platfform 'Power Languages', prosiectau pontio gydag ysgolion uwchradd, Erasmus+ ac ymweliad blynyddol â Normandi gyda Blwyddyn 6.

Ffigur 10: Canran y cyfleoedd i ymgysylltu'n rhyngwladol mewn ysgolion cynradd (caniatawyd mwy nag un ymateb)



Hefyd, gofynnom i ysgolion os oedd ganddynt gysylltiadau â sefydliadau allanol ar gyfer hybu Addysgu a Dysgu Ieithoedd Rhyngwladol. Yn ôl ymateb yr ysgolion a gwblhaodd ein harolwg, mae prinder cysylltiadau o hyd gyda byd busnes - sy'n ategu canfyddiadau'r llynedd. Gwelwyd gostyngiad o 11 y cant mewn cysylltiadau ag ysgolion uwchradd lleol eleni - o 47 y cant yn 2022, i 36 y cant yn 2023. Er bod cysylltiadau gyda'r Consortia Rhanbarthol wedi cynyddu o 19 y cant yn 2022 i 25 y cant yn 2023, mae ein data eleni hefyd yn dangos bod angen o hyd i gryfhau cysylltiadau â phrifysgolion a sefydliadau diwylliannol ymhellach. O ran hynny, rydym yn trabod un enghraifft o'r modd y mae cysylltiadau rhwng ysgolion a phrifysgolion yn cael eu hybu drwy gynllun mentora (gweler 'Cynllun Mentora Myfyrwyr Ieithoedd Modern Tramor: Cynyddu'r Nifer sy'n Cymryd Rhan' yn adran Dathlu Arfer Da yr adroddiad hwn).

| | |
|---|---|
| Busnes neu gyflogwr arall | 1% |
| Prifysgol | 8% |
| Sefydliad Diwylliannol (ee Institut Français) | 8% |
| Ysgolion y tu allan i Gymru | 8% |
| Arall (nodwch ogydd) | 11% |
| Y British Council | 11% |
| Y Consortia Rhanbarthol | 25% |
| Ysgol uwchradd leol | 36% |

Tabl 8: Cysylltiadau â sefydliadau allanol i hybu Addysgu a Dysgu Ieithoedd Rhyngwladol (caniateir mwy nag un ateb)

## ADNODDAU AR GYFER ADDYSGU IEITHOEDD RHYNGWLADOL

Eleni gofynnom i'r holl ysgolion cynradd a ymatebodd i sôn wrthym am yr adnoddau y maent yn eu defnyddio i gyflwyno Ieithoedd Rhyngwladol. Derbyniom amrywiaeth o ymatebion, gyda bron i chwarter yr ysgolion (24 y cant) yn nodi eu bod yn defnyddio adnoddau 'Power Language' (adnodd Ieithoedd Rhyngwladol ar-lein i athrawon). Yn ogystal â nifer o ymatebwyr a nododd eu bod yn defnyddio adnoddau y maent wedi eu creu eu hunain, mae athrawon hefyd yn nodi defnyddio adnoddau Twinkl, Language Gym, La Jolie Ronde, Language Angels, Llwybrau at Ieithoedd, y Consortia (ee Ysgolion Arweiniol ar gyfer Ieithoedd), Lightbulb Languages, YouTube a Cherdd Iaith).

## SYMUD YMLAEN GYDAG IEITHOEDD RHYNGWLADOL MEWN YSGOLION CYNRADD

Gofynnom i ymatebwyr ein harolwg ddweud wrthym am yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd o ran Addysgu a Dysgu Ieithoedd Rhyngwladol yn eu hysgolion. Mae'n galonogol i ddarllen am yr arferion addysgeg sydd ar waith ar hyn o bryd sy'n meithrin amgylchedd ddysgu gadarnhaol i ddisgyblion ac athrawon:

> *"Dull traws-gwricwlaidd - gan ddefnyddio patrymau iaith a geirfa ar draws amrywiaeth o gyd-destunau sy'n cysylltu â'n gwaith pwnc. Adnoddau fel Word Wall i greu gemau cofio syml. Defnyddio adnoddau Power Language i gefnogi'r addysgu. Defnyddio adnoddau Llwybrau at Ieithoedd i ddatblygu dealltwriaeth y dysgwyr o ddiwylliant a chaffael iaith."*

> *"Amser dynodedig drwy sesiynau wedi'u hamserlennu i gyflwyno Ieithoedd Rhyngwladol o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6. Staff cyflenwi CPA yn cyflwyno Ffrangeg a Sbaeneg, a'r athro/athrawes yn cyflwyno i 3 dosbarth arall drwy drefniant cyfnewid sgiliau. Cefnogaeth gan Gonsortiwm De Ddwyrain Cymru."*

> *"Dydd Gwener Ffrangeg (French Friday) - annog disgyblion i ddefnyddio Ffrangeg sylfaenol ar y diwrnod hwn. Rwy'n addysgu ar draws yr ysgol tra bod cydweithwyr yn cymryd fy nosbarth i - dim cost ychwanegol i'r ysgol."*

> *"Mae gyda ni ysgol bartner yn Normandi - sy'n ein galluogi i gyflwyno dysgu pwrpasol mewn cyd-destun. Mae'n sbarduno ein plant i eisiau dysgu Ffrangeg a chyfathrebu gyda'u cyfeillion llythyru. Rydym yn ei gyflwyno'n gynnar i'n disgyblion iau gan eu bod yn frwdfrydig ac yn mwynhau dysgu."*

> *"Mae defnyddio caneuon drwy gyfryngau fel YouTube yn gweithio'n dda drwy'r ysgol. Rydyn ni'n cynnal gwasanaeth yn Sbaeneg bob pythefnos ac mae'r plant yn dwlu cymryd rhan [...] Nid oes gyda ni amser dynodedig ar gyfer ieithoedd, ond mae athrawon yn ceisio ffitio sesiwn i mewn yn ystod pob pythefnos. Bues i'n cynnal clwb ar ôl ysgol a oedd yn boblogaidd iawn. Rwy'n gweithio gyda'r athro arweiniol Cymraeg i geisio dysgu'r un patrymau iaith neu batrymau tebyg."*

Ond, mae heriau o hyd i gyflawni Addysgu a Dysgu Ieithoedd Rhyngwladol mewn ysgolion cynradd a sicrhau bod athrawon yn cael y gefnogaeth angenrheidiol i ateb gofynion y Cwricwlwm Newydd i Gymru. Pan ofynnwyd i ymatebwyr ein harolwg i nodi'r math o gefnogaeth y byddent yn ei groesawu er mwyn gallu datblygu cwricwlwm Ieithoedd Rhyngwladol, cafwyd yr awgrymiadau canlynol:

> *"Mwy o arian i hybu hyfforddiant mewnol i amrywiaeth ehangach o staff er mwyn meithrin hyder, neu gyfleoedd i fynychu mwy o gyrsiau*

*allanol. Datblygu adnoddau ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol, Cymraeg a Saesneg."*

*"Mwy o hyfforddiant i staff. Mwy o arbenigedd ymysg staff - efallai gallai hyn ddigwydd drwy addysgu Ieithoedd Rhyngwladol fel rhan o CPA. Ar hyn o bryd rydyn ni'n cyflwyno Iaith y Mis, ond mae angen mwy o adnoddau i ennyn diddordeb y disgyblion ymhellach a'i wneud yn fwy ystyrlon. Rwy'n meddwl y byddai'n fuddiol petai gyda ni gysylltiadau agosach â'r ysgol uwchradd - gwahodd athrawon atom i roi gwersi model i ddisgyblion a staff, a rhannu'r brwdfrydedd a'r cyffro yna sy'n dod o fod yn arbenigwr. Byddai gallu cael at amrywiaeth ehangach o adnoddau hefyd yn helpu'r broses gynllunio achos hyd yma prin iawn yw'r deunydd addas i ddechreuwyr sydd ar gael."*

*"Cyswllt gydag ysgol gynradd yn Ffrainc. Llyfrau ac adnoddau yn Ffrangeg - ariannu ychwanegol. Hyfforddiant i staff yn ystod diwrnodau HMS. Cysylltiadau â busnesau. Mwy o ddigwyddiadau i gymryd rhan ynddynt yn ystod y flwyddyn. Meithrin cysylltiadau gydag ysgolion cynradd eraill."*

*"Mwy o hyfforddiant, o bosib yn arddull cyrsiau Cymraeg sabothol, i helpu athrawon brwdfrydig ennill mwy o hyder mewn maes y mae rhai yn ei ystyried yn eithriadol o anodd. Pecynnau adnoddau addas i wahanol oedrannau. Mae'r posibiliad o ddarparu cynorthwywyr iaith yn swnio'n rhy dda i bod yn wir mewn cyd-destun cynradd!"*

Yn yr un cywair, mae sylwadau eraill gan ymatebwyr yn pwysleisio'r angen am hyfforddiant pellach i roi cefnogaeth i staff mewn ysgolion, yn ogystal ag amrywiaeth ehangach o adnoddau y gall athrawon fanteisio arnynt. Hefyd, tynnodd rhai athrawon sylw at y cyfyngiadau sydd arnynt o ran amser i baratoi dosbarthiadau iaith, yn ogystal â gorbod mynd i'r afael â'r dirywiad yn sgiliau llythrennedd dysgwyr ar ôl pandemig Covid-19. Mae'r edafedd allweddol yma sy'n rhedeg drwy ymatebion yr ysgolion cynradd yn amlygu'r angen am fwy o ariannu, adnoddau a hyfforddiant fel y gellir rhoi'r cymorth gorau i addysgwyr cynradd gyflawni'r gwaith o addysgu Ieithoedd Rhyngwladol mewn modd ystyrlon.

# Canfyddiadau arolwg ysgolion uwchradd

## PROFFIL YR YSGOLION UWCHRADD A YMATEBODD

Ym mlwyddyn ysgol 2022/23 roedd 178 o ysgolion uwchradd gwladol yng Nghymru. Roedd 130 yn ysgolion cyfrwng Saesneg, 7 yn ysgolion cyfrwng Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg, 17 yn ysgolion cyfrwng Cymraeg a 24 yn ysgolion dwyieithog Cymraeg/Saesneg. Mae'r sefyllfa gymharol sefydlog yma o ran y nifer o ysgolion a'r nifer o ddisgyblion yng Nghymru yn dal i olygu nad yw'r dirywiad yn ffigurau Addysgu a Dysgu Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghymru yn ganlyniad i ddirywiad yn y nifer o ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion; felly rhaid bod ffactorau eraill ar waith.

Ar ôl glanhau ein setiau data, roedd cyfradd yr ymateb i'r arolwg yn 38 y cant; roedd hynny'n gynnydd o'i gymharu â'r gyfradd o 35 y cant a gafwyd yn 2022, a'r 29 y cant a gafwyd yn 2021. Eleni derbyniwyd 14 o ymatebion yn Gymraeg a 53 o ymatebion yn Saesneg. Mae pob un o ysgolion uwchradd gwladol Cymru yn rhan o un o 22 o awdurdodau lleol - ar sail eu lleoliad daearyddol. O ystyried cyfradd yr ymateb i'r arolwg, ac er mwyn cadw ysgolion unigol rhag cael eu hadnabod cyn belled â phosib, bydd yr adroddiad yn dwyn cymariaethau rhwng lleoliadau daearyddol lle bo hynny'n briodol.

| Lleoliad Daearyddol | Yn cynnwys Awdurdodau Lleol | Sail | Nifer yr ysgolion a ymatebodd (n=67) |
|---|---|---|---|
| Gogledd Cymru | Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir Fflint, Wrecsam | 50 | 22 |
| De Orllewin a Chanolbarth Cymru | Powys, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot | 48 | 12 |
| Canol De Cymru | Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerdydd | 49 | 18 |
| De Ddwyrain Cymru | Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd | 31 | 15 |

Tabl 9: Nifer yr ysgolion a ymatebodd - yn ôl lleoliad daearyddol

### Prydau ysgol am ddim

I ddarganbod os oes unrhyw wahaniaethau cymdeithasol-economaidd o ran addysgu a dysgu ieithoedd, edrychwyd ar y canran o ddysgwyr ym mhob ysgol oedd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Gan ddefnyddio data o Gyfrifiad Ysgolion Cymru a gyhoeddwyd ym mis Awst 2022, trefnwyd y nifer llawn o 178 o ysgolion uwchradd a wahoddwyd i ymateb i'r arolwg yn gwintilau yn ôl y ganran o ddysgwyr (hyd at 15 oed) oedd â hawl i gael Prydau Ysgol Am Ddim.

| | Sail (cyfanswm = 178) | Nifer â hawl i gael prydau ysgol am ddim (cyfanswm = 65) | Canran y nifer a ymatebodd i'n harolwg |
|---|---|---|---|
| Cwintil 1 – y lleiaf difreintiedig | 36 | 21 | 32% |
| Cwintil 2 | 35 | 12 | 18.5% |
| Cwintil 3 | 36 | 12 | 18.5% |
| Cwintil 4 | 35 | 11 | 17% |
| Cwintil 5 – y mwyaf difreintiedig | 35 | 9 | 14% |

Tabl 10: Cwintilau 'Hawl i Gael Prydau Ysgol Am Ddim' ar gyfer ysgolion uwchradd gwladol

Mae Tabl 10 yn dangos bod mwy na hanner yr ysgolion uwchradd a ymatebodd yng nghwintilau 1 a 2 (h.y. yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru yn ôl mesuriad y nifer o ddysgwyr sy'n cael gwarchodaeth drosianol sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim). Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'n bosib bod yr hyn sy'n dilyn yn cyflwyno darlun mwy ffafriol na gwir sefyllfa llawer o ysgolion.

## ADDYSGU A DYSGU IEITHOEDD YNG NGHYFNOD ALLWEDDOL 3

Gofynnwyd i athrawon nodi pa Iaith neu Ieithoedd Rhyngwladol yr oedd dysgwyr yn eu hastudio yng Nghyfnod Allweddol 3. Mae Tabl 11 yn dangos y ganran o'r ysgolion cynradd a ymatebodd sy'n cynnig 'y tri mawr' sef Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg ym mhob blwyddyn yng Nghyfnod Allweddol 3. O'r 'tri mawr', Ffrangeg yw'r mwyaf cyffredin o hyd, ac mae ein data yn dangos bod ei statws hyd yn oed yn fwy cadarn nag yn 2022 - ond hefyd, nodir diffyg arwyddocad ystadegol maint y sampl. O ran Ieithoedd Rhyngwladol cwricwlaidd heblaw am Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg, nododd lleiafrif o'r ysgolion a ymatebodd bod pob un o'u dysgwyr yn dysgu Mandarin.

| | Ffrangeg | Almaeneg | Sbaeneg | Arall |
|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn 7 | 79% | 6% | 21% | 0 |
| Blwyddyn 8 | 75% | 10% | 25% | 2% (Mandarin) |
| Blwyddyn 9 | 57% | 6% | 24% | 0 |

Tabl 11: Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghyfnod Allweddol 3 ar gyfer pob dysgwr

### Yr amser a roddir i ieithoedd

O ran yr amser a roddir bob wythnos i Ieithoedd Rhyngwladol, mae mwyafrif yr ysgolion a ymatebodd yn clustnodi 1-2 awr ar eu cyfer bob wythnos drwy gydol Cyfnod Allweddol 3, a 2-3 awr ym Mlwyddyn 10. O'i gymharu â data 2022, nodir mai ym Mlwyddyn 10 y gwelir y lleihad mwyaf yn yr amser a roddir i ieithoedd. Llynedd, nododd 28 y cant o ymatebwyr bod mwy na phedair awr yr wythnos yn cael eu clustnodi ar gyfer Addysgu a Dysgu Ieithoedd Rhyngwladol; eleni, 13 y cant yw'r ffigur cyfatebol. Eto, ni warentir arwyddocad ystadegol y ffigurau hyn, a byddai angen gwneud mwy o ymchwil i ddeall y duedd yma.

| | Blwyddyn 7 | Blwyddyn 8 | Blwyddyn 9 | Blwyddyn 10 |
|---|---|---|---|---|
| Llai na 1 awr | 4% | 4% | 1.5% | 0% |
| 1-2 awr | 79% | 78% | 71% | 20% |
| 2-3 awr | 14% | 15% | 20% | 57% |
| 3-4 awr | 1.5% | 1.5% | 4.5% | 10% |
| Mwy na 4 awr | 1.5% | 1.5% | 3% | 13% |

Tabl 12: Cyfanswm yr amser dosbarth a glustnodir bob wythnos ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghyfnod Allweddol 3 ac ym Mlwyddyn 10

## ADDYSGU A DYSGU IEITHOEDD YNG NGHYFNOD ALLWEDDOL 4

O'r 67 o ysgolion a ymatebodd sy'n cynnig darpariaeth Ieithoedd Rhyngwladol ym Mlwyddyn 10, dengys Tabl 13 bod 45 o ysgolion (67 y cant) yn nodi nad oedd unrhyw ddysgwyr o gwbl neu lai na 10 y cant o'u dysgwyr ym Mlwyddyn 10 yn astudio ar gyfer TGAU neu gymhwyster Lefel 2 arall mewn Iaith Ryngwladol. Mae'r data yma'n cael ei ddefnyddio i broffwydo newidiadau yn y nifer sy'n ymgeisio ar gyfer TGAU yn y blynyddoedd nesaf, felly mae'n debyg y gwelir dirywiad pellach.

| | 0% | 10% | 20% | 30% | 40% | 50% | 60% | 70% | 80% | 90% | 100% |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 | 14 | 30 | 14 | 5 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 2023 | 20 | 25 | 12 | 8 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

Tabl 13: Y gyfran o ddysgwyr ym Mlwyddyn 10 sy'n dysgu Iaith Ryngwladol ar gyfer TGAU neu gymhwyster Lefel 2 arall (ee Cyfathrebu Busnes Byd-eang - Lefel 2) Nodir y ffigurau crai (cyfanswm 2022 n=64, 2023 n=67).

Wrth reswm, mae polisïau ysgol ar gyfer Addysgu a Dysgu Ieithoedd Modern yn amrywio. Caniatawyd rhoi mwy nag un ateb, ond nododd ysgolion uwchradd a ymatebodd i'r arolwg:

| | |
|---|---|
| RHAID i bob dysgwr astudio Iaith Ryngwladol | 0 |
| Ni chynhelir dosbarthiadau os nad oes digon o ddysgwyr | 63% |
| Anogir dysgwyr â chyrhaeddiad is na'r cyfartaledd i beidio dewis Iaith Ryngwladol | 24% |
| Mae'r ysgol yn argymell yn gryf y dylai pob dysgwr astudio Iaith Ryngwladol | 6% |
| Mae'r ysgol yn argymell yn gryf y dylai'r dysgwyr mwyaf abl yn academaidd astudio Iaith Ryngwladol | 3% |
| Oherwydd heriau amserlennu nid yw pob dysgwr yn gallu astudio Iaith Ryngwladol | 51% |
| Mae'n bosib bod Uwch Dîm Rheoli'r ysgol yn cynghori rhai dysgwyr i beidio astudio Iaith Ryngwladol | 18% |
| Arall (rhowch fanylion ogydd) | 13% |

Tabl 14: Polisïau ysgol o ran Addysgu a Dysgu Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghyfnod Allweddol 4 (caniatawyd mwy nag un ateb) yn ôl yr ysgolion a ymatebodd i'n harolwg.

O'i gymharu â *Thueddiadau Ieithoedd Cymru 2022* mae canran yr ysgolion a ymatebodd lle nad oes modd i ddysgwyr astudio Iaith Ryngwladol oherwydd heriau amserlennu wedi cynyddu o 31 y cant i 51 y cant, sy'n awgrymu bod angen adolygu polisïau ar gyfer y ddarpariaeth ieithoedd yng Nghymru. Dewisodd 13 y cant o'r athrawon a ymatebodd yr opsiwn 'arall' gan nodi amryw o wahanol bolisïau ysgol ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 gan gynnwys: Cynigir Ieithoedd Rhyngwladol i bob dysgwyr ond nid oes gofyn iddynt astudio iaith; cynigir Ffrangeg fel pwnc dewisol ar gyfer TGAU; neu, mae'n dibynnu ar ddewisiadau'r dysgwyr o bynciau eraill p'un a fyddant yn dewis Iaith Ryngwladol neu beidio. Unwaith eto, gofynnwyd i athrawon ystyried y tair blynedd diwethaf a sut mae'r gyfran o ddysgwyr sy'n astudio Iaith Ryngwladol yng Nghyfnod Allweddol 4 wedi newid (os o gwbl). Mae canfyddiadau'r athrawon (fel y dangosir yn Nhabl 15) yn cadarnhau'r ystadegau cenedlaethol a nodir yng nghyflwyniad yr adroddiad hwn; nid oes patrwm amlwg ym marn un o bob pedwar, gyda'r ffigurau'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Mae'n bosib mai canlyniadau sgil-effeithiau pandemig Covid-19 sy'n gyfriol am y newid hwn yng nghanfyddiad athrawon. At hynny, mae bron i hanner yr ysgolion a ymatebodd yn teimlo bod llai o ddysgwyr bellach yn dewis Iaith Ryngwladol yng Nghyfnod Allweddol 4.

| | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|
| Mae Ieithoedd Rhyngwladol yn orbodol ar gyfer pob dysgwr yng Nghyfnod Allweddol 4 | 0 | 0 |
| Mae mwy o ddysgwyr yn dewis Iaith Ryngwladol yng Nghyfnod Allweddol 4 nawr | 10% | 7% |
| Mae llai o ddysgwyr yn dewis Iaith Ryngwladol yng Nghyfnod Allweddol 4 nawr | 55% | 49% |
| Mae'r niferoedd yn debyg i flynyddoedd blaenorol | 16% | 15% |
| Dim patrwm clir: mae'r niferoedd yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn | 17% | 27% |
| Arall | 2% | 2% |

Tabl 15: Canfyddiadau athrawon o ran y nifer sy'n dewis astudio TGAU mewn Iaith Ryngwladol dros y tair blynedd diwethaf

## IEITHOEDD FEL GWEITHGAREDD ALLGYRSIOL

Gofynnwyd i'r athrawon nodi os oedd eu dysgwyr yn dysgu unrhyw un/rai o'r Ieithoedd Rhyngwladol a nodir isod fel gweithgaredd allgyrsiol ar hyn o bryd. Mae'r data yn Nhabl 16 yn dangos bod mwyafrif yr ysgolion a ymatebodd yn nodi 'Dim' ar draws Cyfnod Allweddol 3, Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16. Mae'n ddiddorol nodi mai Ffrangeg eto yw'r Iaith Ryngwladol fwyaf poblogaidd o ran gweithgaredd allgyrsiol a bod amrywiaeth eang o ieithoedd heblaw'r '3 mawr' yn cael eu cynnig mewn rhai ysgolion. Yr iaith 'Arall' fwyaf poblogaidd oedd Eidaleg.

| | CA3 | CA4 | Ôl-16 |
|---|---|---|---|
| Arabeg | 3% | 3% | 1.5% |
| Ffrangeg | 1.5% | 4% | 0 |
| Almaeneg | 3% | 4% | 1.5% |
| Mandarin | 15% | 3% | 4% |
| Pwyleg | 4% | 4% | 1.5% |
| Sbaeneg | 14% | 7% | 3% |
| Dim | 68% | 73% | 88% |
| Arall | 6% (Corëg, Eidaleg) | 4% (Corëg, Eidaleg) | 3% (Eidaleg) |

Tabl 16: Dysgwyr sy'n dysgu unrhyw un o'r Ieithoedd Rhyngwladol uchod fel gweithgaredd allgyrsiol yng Nghyfnod Allweddol 3, Cyfnod Allweddol 4, ac Ôl-16 (caniatawyd mwy nag un ateb)

## DIMENSIWN RHYNGWLADOL

Mae Tabl 17 yn dangos bod enghreifftiau o ymgysylltu rhyngwladol arbennig o dda yn dal i'w gweld mewn ysgolion, gydag athrawon a disgyblion yn manteisio ar fentrau fel Llwybrau at Ieithoedd Cymru[5], (prosiect allgymorth cenedlaethol sy'n hyrwyddo gwelededd, defnydd a phroffil ieithoedd mewn ysgolion yng Nghymru), a chynllun Mentora Myfyrwyr Ieithoedd Tramor Modern[6], (sy'n annog dysgwyr i astudio Ieithoedd Rhyngwladol ar gyfer TGAU a thu hwnt drwy raglen o fentora wyneb yn wyneb ac ar-lein).

Mae prinder Cynorthwywyr Iaith mewn ysgolion yn adlewyrchu'r hinsawdd economaidd bresennol. Dengys ein data mai Cynorthwyydd Iaith sy'n siarad Mandarin yw'r dewis mwyaf tebygol ymysg y lleiafrif o ysgolion sy'n croesawu unrhyw Gynorthwyydd Iaith o gwbl. Mae Cynorthwywyr Iaith yn siaradwyr Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Mandarin a Sbaeneg sy'n gallu helpu dysgwyr i ddatblygu eu hamgyffred diwylliannol drwy ddatblygu eu sgiliau ieithyddol a thraws-ddiwylliannol. Mae cael siaradwr Iaith Ryngwladol yn yr ystafell ddosbarth yn adnodd o'r byd go iawn. Maent yn gallu cynnig cyd-destun go iawn i ddysgu iaith drwy sôn am eu profiadau a'u diwylliant cartref a thrwy ysbrydoli dysgwyr i ddatblygu eu gallu i gyfathrebu a rhannu eu safbwyntiau eu hunain am y byd.

Dengys tystiolaeth bod cynorthwyydd sy'n siarad iaith ryngwladol yn gwneud gwahaniaeth arwyddocaol i'r broses o addysgu iaith, canlyniadau arholiadau a chanlyniadau dysgu. Yn adolygiad rhaglen 2020-21 y British Council, nododd 98 y cant o ysgolion a groesawodd gynorthwyydd iaith eu bod wedi gweld cynnydd o ran gwrando a siarad; dywedodd 99 y cant y byddent yn argymell y rhaglen.

Rhoddwyd cyfle i'r athrawon hefyd nodi enghreifftiau eraill o ymgysylltu rhyngwladol yn yr opsiwn 'Arall'. Nododd sawl ysgol nad oeddynt wedi ymgysylltu'n rhyngwladol o gwbl; nododd dwy ysgol bod eu dysgwyr yn llythyru â dysgwyr mewn ysgolion yn Ffrainc; a nododd dwy ysgol arall eu bod yn manteisio ar adnoddau 'UK-Germany Connection'. Mae nifer o ysgolion yn trefnu teithiau dramor, ond nododd un ysgol bod hynny'n mynd yn rhy ddrud bellach.

| | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|
| Mae gan ein sefydliad un neu fwy o sefydliadau partner dramor | 17% | 18% |
| Manteisio ar gyfleoedd rhyngwladol y British Council | 6% | 15% |
| Rydym yn cyflogi Cynorthwywyr Iaith | 8% | 9% |
| Rydym yn manteisio ar gyfleoedd a gynigir gan sefydliadau diwylliannol (ee Confucius Institute, Goethe-Institut, Institut Français, Consejería de Educación) | 38% | 31% |
| Rydym yn cymryd rhan yng Nghynllun Mentora Myfyrwyr Ieithoedd Tramor Modern | 56% | 72% |
| Rydym yn manteisio ar gyfleoedd a gynigir gan fenter Llwybrau at Ieithoedd Cymru | 78% | 66% |
| Arall | | 19% |

Tabl 17: Ymgysylltu rhyngwladol mewn ysgolion uwchradd (caniatawyd mwy nag un ateb)

## EFFAITH BOSIB Y CWRICWLWM NEWYDD I GYMRU O 2022 YMLAEN

Unwaith eto eleni, gofynnwyd i athrawon ystyried y tebygolrwydd y bydd y Cwricwlwm Newydd i Gymru, lle mae Ieithoedd Rhyngwladol yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad 'Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu', yn gwella sefyllfa Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghymru. Yn gyffredinol, mae synnwyr bod teimladau cadarnhaol ar gynnydd, a phob rheswm i bod yn optimistaidd gyda mwy o athrawon bellach yn eistedd ar y ffens yn 2022/23 nag yn 2021/22.

| | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|
| Tebygol iawn | 2% | 2% |
| Eithaf tebygol | 25% | 24% |
| Ddim yn debygol iawn | 40% | 28% |
| Ddim yn debygol o gwbl | 25% | 25% |
| Nid wyf yn gwybod | 8% | 21% |

Tabl 18: Ymateb athrawon i'r cwestiwn, 'Yn eich barn chi, pa mor debygol yw hi y bydd y Cwricwlwm Newydd i Gymru gydag Ieithoedd Rhyngwladol yn rhan o Faes Profiad a Dysgu 'Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu' yn gwella sefyllfa Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghymru?

5 Gweler: https://routesintolanguagescymru.co.uk/cy/croeso/
6 Gweler: https://mflmentoring.co.uk/cy/

Mae Tabl 19 yn dangos bod mwy na hanner yr athrawon a ymatebodd yn ystyried bod eu hysgol 'wedi gwneud rhai newidiadau'n barod i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru' drwy gydweithio o fewn eu Maes Dysgu a Phrofiad.

| | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|
| Rydym wedi gwneud rhai newidiadau'n barod ar gyfer hyn ac wedi eu rhoi ar waith | 50% | 58% |
| Rydym wedi gwneud rhai cynlluniau a fydd yn cael eu rhoi ar waith yn ddiweddarach | 22% | 15% |
| Rydym wedi cael trabodaethau ond heb wneud unrhyw gynlluniau cadarn eto | 22% | 23% |
| Heb bod yn rhan o'r paratoadau ar gyfer hyn eto | 6% | 4% |

Tabl 19: Ymatebion athrawon i'r cwestiwn, 'I ba raddau mae eich Adran Ieithoedd Rhyngwladol wedi bod yn cydweithio o fewn eich Maes Profiad a Dysgu a thrwy'r ysgol gyfan wrth baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru?

## DARPARIAETH ÔL-16 AR GYFER IEITHOEDD RHYNGWLADOL MEWN YSGOLION

Mae'r tueddiadau o ran y ddarpariaeth ôl-16 ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol mewn ysgolion uwchradd yn gyson â'r tueddiadau a nodwyd yn *Nhueddiadau Ieithoedd Cymru 2021 a 2022*; mae niferoedd isel o ddysgwyr yn golygu na ellir cynnal llawer o ddosbarthiadau; mae anghysondeb ar draws Cymru o ran y nifer o ddysgwyr sydd eu hangen i sicrhau bod cynnal dosbarth yn ddichonadwy; ac mae llawer o athrawon yn credu bod cynnwys manyleb y pwnc a'r dull asesu yn anatyniadol i ddysgwyr.

Gofynnwyd i'r athrawon rannu eu hargraffiadau o'r ddarpariaeth ôl-16 dros y tair blynedd diwethaf. Ymatebodd tri deg naw o athrawon i'r cwestiwn hwn. Mae Tabl 20 yn dangos rhywfaint o newyddion cadarnhaol ynghyd â newyddion llai cadarnhaol, gyda rhai ysgolion yn cyflwyno ieithoedd penodol fel pwnc newydd ar gyfer Lefel A:

| | Ffrangeg | Almaeneg | Sbaeneg | Iaith Ryngwladol Arall |
|---|---|---|---|---|
| Wedi'i gyflwyno fel Lefel A newydd | 2 | 0 | 2 | 0 |
| Mae'r nifer sy'n ei ddewis wedi cynyddu | 3 | 3 | 0 | 0 |
| Mae'r nifer sy'n ei ddewis yn debyg | 10 | 2 | 9 | 3 |
| Mae'r nifer sy'n ei ddewis wedi lleihau | 18 | 5 | 6 | 0 |
| Ni ddysgir y pwnc mwyach | 2 | 3 | 2 | 0 |
| Nid yw'n cael ei addysgu yn fy sefydliad | 4 | 26 | 20 | 36 |

Tabl 20: Argraffiadau athrawon o faint o newid sydd wedi bod (os o gwbl) o ran y nifer o ddysgwyr ôl-16 sy'n dewis astudio Ieithoedd Rhyngwladol a'r ddarpariaeth ar gyfer hynny yn eu hysgolion.

Pan holon ni ymhellach, dywedodd athrawon:

> *"Er ein bod, yn flynyddol, yn gyson, wedi cael pedwar i bump o ddysgwyr a oedd yn dewis astudio Sbaeneg ar gyfer Lefel A, eleni mae'r Uwch Dîm Arwain wedi penderfynnu peidio cynnig y pwnc gan mai dim ond pump o ddysgwyr fynegodd ddiddordeb i'w astudio."*

> *"[Yr hyn sy'n gyfrifol am y dirywiad yw] ...effeithiau ar ôl Covid-19, a'r ffaith bod Lefel A Ffrangeg a Sbaeneg yn anodd iawn, a'r argraff bod ennill Lefel A yn y naill a'r llall yn anodd. Mae'r dysgwyr eisiau sicrhau eu bod yn cael y graddau angenrheidiol i fynd i Brifysgol."*

# Canfyddiadau arolygon colegau ôl-16

## FFOCWS AR ADDYSGU A DYSGU IEITHOEDD RHYNGWLADOL MEWN COLEGAU ÔI-16

O'r 11 o golegau ôl-16 y cysylltom â nhw, ymatebodd 8 i'n harolwg - un yn llai na'r llynedd. Gan bod y nifer yn fach, nodir y ffigurau yn y rhan hon o'r adroddiad fel ffigurau craidd.


Nid oes un o'r colegau a ymatebodd yn cynnig cymwysterau galwedigaethol mewn Ieithoedd Rhyngwladol; ond mae un coleg yn cynnig cymhwyster galwedigaethol yn y Gymraeg. Eleni, nododd un coleg ei bod yn cynnig TGAU neu gymhwyster Lefel 2 mewn Ieithoedd Rhyngwladol. Fel y llynedd, mae'r ymatebion yn canolbwyntio ar Lefel A Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg. Does dim un coleg yn cynnig cyfleoedd i ailsefyll arholiadau TGAU Ffrangeg, Almaeneg a/neu Sbaeneg; ond mae dau goleg yn cynnig cyfleoedd i ailsefyll TGAU Cymraeg. Nododd tri choleg nad oedd unrhyw un o'u myfyrwyr yn astudio Iaith Ryngwladol ym mlwyddyn ysgol 2022/23.

## YR IEITHOEDD A DDYSGIR

Dysgir Lefel A Ffrangeg mewn pump o'r wyth coleg a ymatebodd, Sbaeneg mewn tri ac Almaeneg mewn dau. Wrth gymharu'r ffigurau â 2022, lle'r oedd Ffrangeg yn cael ei gynnig mewn wyth o'r naw coleg a ymatebodd, Sbaeneg mewn chwech ac Almaeneg mewn tri, mae'r data a gasglwyd yn 2023 yn adlewyrchu dirywiad yn yr ieithoedd a ddysgir mewn colegau ôl-16. Dim ond un coleg a nododd weld cynnydd yn y nifer sy'n dewis astudio Lefel A Ffrangeg, tra nododd un coleg eu bod wedi gweld gostyngiad. Roedd un coleg wedi stopio cynnig Almaeneg, tra bod y ffigurau wedi disgyn mewn un coleg arall. Er bod un coleg wedi nodi gostyngiad yn y nifer a ddewisodd Sbaeneg, nododd dau goleg arall bod eu ffigurau yn sefydlog.

O ran y nifer o fyfyrwyr Blwyddyn 12 sy'n astudio Iaith Ryngwladol mewn colegau ôl-16, mae'r rhif yn amrywio o goleg i goleg (gweler Ffigur 11).

Ffigur 11: Y nifer o fyfyrwyr sy'n astudio un neu fwy o Ieithoedd Rhyngwladol ym Mlwyddyn 12 mewn colegau ôl-16




Pan mai nifer fach yn unig o fyfyrwyr sydd am astudio iaith, mae amryw o drefniadau ar waith mewn colegau ôl-16 nododd dau goleg nad ydynt yn cynnal dosbarthiadau o gwbl yn yr achos hwnnw, a nododd coleg arall bod ganddynt drefniant gyda sefydliad arall. Yn y sylwadau am enghreifftiau eraill, nododd darlithwyr bod dosbarthiadau'n cael eu hamserlennu yn ôl y drefn arferol, ac y gwneir ymdrechion i sicrhau bod y dosbarthiadau'n gallu parhau er gwaethaf y nifer fach sydd wedi cofrestru.

## Y CWRICWLWM NEWYDD I GYMRU - SAFBWYNT Y COLEGAU ÔL-16

Fel y llynedd, gofynnom i golegau ôl-16 pa mor debygol yw hi y bydd y Cwricwlwm Newydd i Gymru, gydag Ieithoedd Rhyngwladol yn rhan o Faes Profiad a Dysgu 'Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu', yn gwella sefyllfa Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghymru? Dengys Ffigur 12 bod dau goleg wedi ymateb drwy nodi 'eithaf tebygol', dau wedi ymateb 'nid wyf yn gwybod' tra bod y pedwar coleg arall wedi ymateb drwy nodi 'ddim yn debygol iawn' neu 'ddim yn debygol o gwbl'. Fel yn achos *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2022,* ymatebodd un coleg drwy nodi 'tebygol iawn', ymatebodd un drwy nodi ''eithaf tebygol', ymatebodd dau drwy nodi 'nid wyf yn gwybod, tra ymatebodd gweddill y colegau drwy nodi 'ddim yn debygol' neu ddim yn debygol o gwbl'.


Ffigur 12: Yn eich barn chi, pa mor debygol yw hi y bydd y Cwricwlwm Newydd i Gymru, gydag Ieithoedd Rhyngwladol yn rhan o Faes Profiad a Dysgu 'Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu', yn gwella sefyllfa Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghymru?



## DIMENSIWN RHYNGWLADOL

Yn gymesur â chanfyddiadau *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2022*, nododd pob coleg o leiaf un enghraifft lle'r oedd eu staff a/neu eu myfyrwyr wedi cael cyfle i ennill profiad rhyngwladol ym mlwyddyn academaidd 2022/23. Dengys Ffigur 13 bod chwech o golegau'n manteisio ar raglen gyfnewid 'Taith'. O gymharu ag adroddiad y llynedd, nododd y colegau y bu llai o ymwneud â Llwybrau at Ieithoedd Cymru a bod llai o geisiadau wedi bod ar gyfer Cynllun Turing.

Ffigur 13: Cyfleoedd i fanteisio ar brofiadau rhyngwladol mewn colegau Ôl-16 (caniatawyd mwy nag un ateb)




Ym mlwyddyn academaidd 2022/23, nododd chwech o'r wyth o golegau a ymatebodd nad oeddynt yn cyflogi cynorthwywyr iaith. O'r chwech, nododd ddau mai'r prif reswm am hynny oedd y nifer isel o fyfyrwyr iaith yn y coleg:

> *'Dim ond nifer cyfyngedig o fyfyrwyr sy'n astudio ieithoedd gyda ni.'*

> *'Mae'r niferoedd yn rhy isel - nid oes gan Ieithoedd broffil digon uchel yn y cwricwlwm.'*

O ran cynorthwywyr iaith, nododd darlithwyr ôl-16 eraill y canlynol:

> *'Mae gyda ni Hyrwyddwr Dwyieithrwydd i hybu'r iaith Gymraeg a chynyddu'r defnydd ohoni. Mae gyda ni dîm Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) sy'n gweithio gyda dysgwyr o'r gymuned sy'n awyddus i wella eu sgiliau iaith Saesneg, ond bach iawn yw'r galw am gynorthwyydd iaith.'*

> *'Mae gofyniad statudol arnom i gyflwyno Cymraeg. Rydyn ni'n cyflogi 5 o swyddogion cymorth Iaith Gymraeg sy'n gweithio gyda dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Arian/amser yn cyfyngu ar ein gallu i gefnogi ieithoedd eraill.'*

## SYMUD YMLAEN GYDAG IEITHOEDD RHYNGWLADOL MEWN COLEGAU ÔL-16

Gofynnom i'r colegau nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda o ran Addysgu a Dysgu Ieithoedd Rhyngwladol; ymysg yr ymatebion gan ddarlithwyr, nodwyd bod myfyrwyr iaith yn mwynhau tripiau coleg, yn ennill graddau uchel, ac yn ystyried parhau eu hastudiaethau iaith yn y brifysgol. Ond, ymysg yr ymatebion a dderbyniwyd gan y colegau nodwyd hefyd y byddent yn hoffi gweld mwy o fyfyrwyr yn astudio ieithoedd ar gyfer Lefel A, a phwysleisiwyd yr angen i addysgu Ieithoedd Rhyngwladol mewn modd ystyrlon o'r cyfnod cynradd ymlaen.

# Dathlu arfer da

Eleni, mae *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* yn rhoi sylw arbennig i rai o'r mentrau addysg iaith sydd ar waith mewn ysgolion cynradd ac ôl-gynradd yng Nghymru. Er mwyn amlygu enghreifftiau o'r arfer rhagorol sydd ar waith mewn dosbarthiadau ledled Cymru, cynhaliom gyfweliadau gydag athrawon i rannu eu profiadau o'r meysydd canlynol:

- Cynllun Mentora Myfyrwyr Ieithoedd Tramor Modern mewn ysgol uwchradd;
- Addysgu a Dysgu Ieithoedd mewn dosbarth TGAU; a
- Dosbarth lluosieithog mewn ysgol gynradd.

Trwy gyfweliadau lled-strwythuredig, gofynnom i'r athrawon[7] sôn am yr enghreifftiau o arfer gorau yn eu hysgol, yr heriau y maent wedi eu hwynebu fel athrawon iaith a'u cyngor i athrawon iaith eraill. Cafodd y cyfweliadau eu recordio ac yna eu trawsgrifio a'u defnyddio at ddibenion dadansoddi data. Nod y cyfweliadau oedd cael disgrifiadau cyfoethog o rai o'r arferion da sydd ar waith yn ysgolion Cymru a'u heffaith gadarnhaol - fel y gellir nodi a rhannu'r profiadau gydag ysgolion ac athrawon ledled Cymru a thu hwnt.

## CYNLLUN MENTORA MYFYRWYR IEITHOEDD TRAMOR MODERN: CYNYDDU'R NIFER SY'N CYMRYD RHAN

Nod Cynllun Mentora Myfyrwyr Ieithoedd Tramor Modern (https://mflmentoring.co.uk/cy/amdanom-ni/) yw gwella'r cymhelliant i ddysgu ieithoedd mewn ysgolion uwchradd. Trwy fanteisio ar barodrwydd a brwdfrydedd myfyrwyr iaith mewn prifysgolion i ddod yn fentoriaid iaith, mae'r cynllun yn rhoi cyfle i ysgolion ddarparu sesiynau mentora i'w dysgwyr (12-14 oed) - waeth beth yw lefel eu hyfedredd ieithyddol.

Daw ein henghraifft gyntaf o arfer rhagorol gan athro Ffrangeg a ddechreuodd addysgu yn 2002 ac sydd ar hyn o bryd yn addysgu mewn ysgol uwchradd. Soniodd yr athro am sut y mae Cynllun Mentora Myfyrwyr ITM wedi cyfoethogi gwaith yr adran ieithoedd yn yr ysgol:

> *"Daeth mentor ITM i'r ysgol, a buodd e gyda ni am ddau dymor. Roedd y tymor cyntaf yn gyfuniad o ddysgu wyneb yn wyneb a dysgu cyfunol gyda rhai sesiynau ar-lein. Yn yr ail dymor fe gynhaliodd e gyfres o sesiynau wyneb yn wyneb. Roedd e'n berson gwirioneddol neis, ac fe fwynheuodd y plant eu sesiynau gyda fe'n fawr iawn."*

Aeth yr athro ymlaen i sôn am sut yr oedd cynnwys y sesiynau wedi tanio brwdfrydedd y dysgwyr - nid yn unig o ran datblygu sgiliau iaith ond hefyd o ran cyfleoedd rhyngweithiol i ystyried sut mae ieithoedd a diwylliannau'n cysylltu. Yn ogystal â chyfleoedd i ymarfer eu sgiliau iaith, roedd y sesiynau'n rhoi cyfle i'r dysgwyr drabod y gwahaniaethau rhwng diwylliannau ac ieithoedd, a'r hyn sy'n gyffredin rhyngddynt hefyd. Roedd hyn yn cyd-fynd ag arfer addysgu'r athro lle rhoddwyd ffocws cadarn ar drochi diwylliannol drwy gyflwyno deunydd cyfryngol a ffilmiau mewn gwahanol ieithoedd, fel y ffilm Ffrengig boblogaidd *Les Choristes*, a thripiau ysgol i wahanol wledydd.

Wrth nodi llwyddiant Cynllun Mentora Myfyrwyr ITM yn yr ysgol, soniodd yr athro am sut yr oedd y fenter wedi cael effaith gadarnhaol weladwy ar ganfyddiadau'r dysgwyr:

> *"Roedd y profiad yn gwneud i'r plant deimlo'n arbennig....ac mae hynny'n gwneud byd o wahaniaeth. Felly dw i'n credu ei bod wedi bod yn help mawr. Roedden nhw'n hoff iawn o sgwrsio gyda'r mentor ac roedd yn hyfryd i gael rhywun o brifysgol - myfyriwr sy'n ifanc a diddorol - ac fe wnaethon nhw ymateb yn wirioneddol dda iddo."*

Hefyd, soniodd yr athro am effaith y profiad ar gymhelliant y bobl ifanc i barhau i astudio mwy nag un iaith hyd yn oed yn wyneb naratifau cymdeithasol-wleidyddol, prinder cyfleoedd i groesawu cynorthwywyr iaith a thybiaethau bod arholiadau iaith yn rhy anodd a heriol:

> *"Byddwn i'n dweud ein bod wedi gweld agweddau fwyfwy negyddol at ieithoedd ers Brexit. Dw i'n credu bod yna agwedd o 'beth yw pwynt dysgu iaith?' - a dyna pam roedd cael y sesiynau mentora yma'n wirioneddol ddefnyddiol."*

> *"Dw i'n credu bod y cwrs TGAU yn eithriadol o heriol, er enghraifft mae yna 18 o is-bynciau ar gyfer yr arholiad llafar. Mae'n anferth, a dw i'n credu bod hynny'n troi disgyblion yn ei erbyn hefyd... ac yn gwbl ddealladwy mae'n cael ei weld fel pwnc anodd iawn ac mae pobl yn credu y gallant ennill gwell graddau, a hynny'n haws, mewn pynciau eraill."*

Yn yr ysgol hon, bu'r Cynllun Mentora Myfyrwyr ITM yn help i wrthbwyso'r pryderon hyn. Bu'n help i godi proffil ieithoedd mewn ysgol sydd ond yn

7 Yn yr adran hon, defnyddir yr enw 'athro' i gyfeirio at bob un o'r athrawon unigol a roddodd gyfweliad - boed yn wrywaidd neu'n fenywaidd. Gwneir hyn i sicrhau nad oes modd adnabod yr unigolion dan sylw a diogelu eu gwybodaeth bersonol.

cyflogi nifer fach o athrawon iaith, ac fe gyfranodd i'r cynnydd a welwyd yn nifer y disgyblion sy'n dewis astudio Ffrangeg ar gyfer TGAU ymysg y disgyblion hynny a gabodd brofiad uniongyrchol o'r methodolegau mentora.

Wrth symud ymlaen, gofynnom i'r athro pa gyngor y byddent yn ei roi i athrawon iaith sy'n wynebu'r heriau hyn:

> *"Byddwn i'n sicr yn argymell gwneud rhywbeth fel y Cynllun Mentora Myfyrwyr ITM. Byddwn i'n sicr yn argymell mynd â disgyblion dramor gymaint â phosibl…a phetai modd i ni ffeindio arian i fynd â disgyblion sydd heb fodd ariannol i Ffrainc, neu unrhyw wlad arall, i gael 'y' profiad o drochiad diwylliannol - dw i'n credu mai dyna'r allwedd…*
>
> *A llawn mor bwysig…mae cael cynorthwywyr iaith ifanc a chŵl sy'n dod i mewn i siarad am eu bywydau - mae hynny hefyd yn werth ei bwysau mewn aur, on'd yw e?"*

## DOSBARTH TGAU: ADDYSGU A DYSGU IEITHOEDD MEWN MODD YSTYRLON A DILYS

Mae'r arferion rhagorol canlynol yn dod gan athro amlieithog ac arweinydd â thros 25 mlynedd o brofiad mewn lleoliadau ôl-gynradd. Mae'n ystyried bod dull sy'n hybu addysgu a dysgu ystyrlon a dilys yn allweddol i lwyddiant gyda TGAU. Gyda'r dull yma, mae'r athro'n defnyddio'i hun fel esiampl neu bodel rôl o ddysgu iaith i'r dysgwyr. Maent yn gweithio fel tîm i helpu ei gilydd i wella eu sgiliau iaith gan ddangos rhinweddau dysgu'n gydweithredol a dysgu gydol oes i'r dysgwyr. Maent yn meithrin ymwybyddiaeth iaith eu dysgwyr drwy ddefnyddio testunnau cyflawn a thrwy rannu cyfarwyddid uniongyrchol am strategaethau dysgu iaith drwy drefnwyr dysgu. Mae'r athro hefyd yn eirioli dros ddysgu ieithoedd i sicrhau bod darpariaeth aml a chyson yn amserlen yr ysgol ar gyfer dosbarthiadau iaith fel bod dysgwyr yn cael profiad rheolaidd o ieithoedd.

Wrth drabod yr arferion rhagorol hyn, mae'r athro'n ystyried yr effaith y gall athrawon ei gael drwy bod yn esiampl ar gyfer y dysgu:

> *"…bod yn esiampl ar gyfer y dysgwyr - iddyn nhw weld ein bod ni'n arbenigwyr ac yn gwybod am gefndir yr hyn yr ydym yn ei wneud. Mae'n bwysig iawn i rannu hynny gyda dysgwyr - fel esiamplau neu fodelau rôl - achos chi yw eu pwynt cyswllt gydag iethegwyr, ac rydyn ni'n gwybod bod dysgwyr weithiau'n gweld eu hathrawon fel modelau rôl - er da neu ddrwg. Felly, pan maen nhw'n gweld y da, pan maen nhw'n teimlo'n angerddol am bwnc, maen nhw eisiau gwybod beth oedd eich profiad chi. Mae gweld fy nhîm yn ymroi i ddysgu sgiliau iaith newydd yn beth da i'r dysgwyr achos dw i'n credu, gydag ieithoedd, mae disgwyl i ni gyd i bod yn….berffaith. Ond nid felly y mae; mae'n broses o ddysgu parhaus - ac mae hynny'n beth pwysig i'w sylweddoli, hyd yn oed fel athrawon. A'r arloesi yna - hwnna yw'r peth, ynde? A'r dysgu parhaus a'r cymhelliant yna i yrru ymlaen sy'n angenrheidiol i ni fel athrawon."*

I wella hyfedredd a hyder athrawon wrth ddefnyddio mwy na dwy iaith, mae'r athro yma'n sôn am rai o'r ffyrdd y rhoddir cefnogaeth i athrawon wella eu sgiliau iaith. Mae'r rhain yn cynnwys rhoi pwyslais ar dimoedd dysgu cydweithredol a pholisi drws agored i athrawon yn adrannau iaith ysgolion:

> *"Y gefnogaeth a'r anogaeth dych chi'n rhoi iddyn nhw fel tîm, nid fel unigolion - dyna sy'n bwysig. Rydyn ni'n fbodus iawn achos 'dyn ni'n cynllunio ac adolygu ar y cyd yn rheolaidd. Rydyn ni'n cynnal cyfarbodydd wythnosol. Drwy hynny rydyn ni'n sicrhau ein bod yn gallu ffocysu, a bod gyda ni bolisi drws agored hefyd. Yn aml ar ôl ysgol fe ddaw un o athrawon fy nhîm ataf a dweud 'dim ond un peth dw i eisiau ei drabod', ond yna maen nhw'n dadlwytho sawl peth. Ond mae'n bwysig eu bod yn cael y cyfle i ryddhau a rhannu'r syniadau yna. Mae'n fater o sicrhau bod gyda ni gynlluniau clir a chyson a'n bod ni'n cynllunio drwy gydweithio â'n gilydd. Rydyn ni'n gwybod bod gan bob un ohonom berchnogaeth o hynny. Er enghraifft, os oes problemau gydag ynganu, os yw iaith yn newydd - ein bod ni'n gwneud yn siwr ein bod yn cynnig esboniad. Weithiau, dw i'n recordio elfennau llafar a'u cynnwys yn y PowerPoint ar eu cyfer. Gall hynny bod yn dipyn haws iddyn nhw, a gallan nhw wrando arno a'i ddefnyddio fel canllaw neu ddefnyddio fy recordiad i gyda'r dysgwyr hefyd. Mae ganddyn nhw'r dewis yna, ac mae hynny'n arbennig o bwysig achos rydyn ni'n ymwybodol bod yna heriau pan fo unigolion sydd ddim yn arbenigwyr yn rhan o'n tîm."*

Darperir amser penodol yn amserlen yr ysgol ar gyfer hwyluso'r arferion rhagorol hyn. Gyda'r Cwricwlwm Newydd, mae ysgol yr athro yma'n cynnig Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg ar gyfer TGAU a Lefel A. Yng Nghyfnod Allweddol 3 mae'r ysgol yn clustnodi pump o wersi 50-munud bob pythefnos ar gyfer addysgu a dysgu ieithoedd. Eiriolodd athrawon yr ysgol dros glustondi'r amser yma, a ddisgrifir fel gwneud 'ychydig yn gyson', yng Nghyfnod Allweddol 3. Mae hynny'n eu galluogi i gynnig tymor o Ffrangeg, tymor o Almaeneg a thymor o Sbaeneg. Mae cyflawni'r amserlen yma'n gyson ac olynol yn ystod 2021/22 a 2022/23 yn un o'r strategaethau a ddefnyddir ganddynt i gynnig amrywiaeth o ieithoedd. Gobeithir y bydd hyn yn cyfrannu at gynyddu'r nifer sy'n dewis astudio ieithoedd yn y blynyddoedd nesaf ac agor llwybrau cynnydd cyfannol:

> *"Rydyn ni'n cyfeirio ein hegni i gyrraedd canlyniad, ond dim ond gyrru i sicrhau cynnydd yng*

*Nghyfnod Allweddol 3 yr ydym. Ac er bod modd mesur cynnydd drwy ddata ac asesu, mae cynnydd yn llawer mwy na hynny hefyd; yn benodol - yr hyn y mae dysgwyr yn gallu ei wneud, a sut y gallant bod yn ymwybodol o'r hyn y gallant ei wneud. Ac mae angen meithrin y lefelau hyder a chymhelliant yna, a sicrhau bod ganddyn nhw ddealltwriaeth o'r cysyniadau sydd ar waith mewn blociau adeiladau iaith a blociau adeiladu ieithyddol fel bod ganddyn nhw seiliau cadarn pan fyddant yn dechrau astudiaethau TGAU. Dydyn ni ddim eisiau sefyllfa lle'r ydym yn mesur eu cynnydd drwy edrych ar faint o eiriau maen nhw'n eu gwybod. Y gallu i gyfathrebu - dyna sy'n bwysig. Ydyn ni'n gallu cynnal sgyrsiau'n anffurfiol a digymell? Oes ffordd i feithrin yr hyder yna yn y ffordd yr ydym yn mynegi ein hunain, gan wybod efallai nad ydyn ni'n hollol gywir bob tro?"*

O ran cyd-destun arfer addysgu iaith, fe soniodd yr athro am strategaethau addysgu a dysgu sy'n defnyddio dull Ymwybyddiaeth Iaith yngyd â chyfarwyddiadau uniongyrchol. Mae ffurfio gwersi o gwmpas pynciau penodol a defnyddio trefnyddion iaith ar gyfer dysgu geirfa yn rhai o'r dulliau a ddefnyddir ganddynt i wneud dysgu ieithoedd yn apelgar ac ystyrlon i'r dysgwyr:

*""...mae yna eiriau rydyn ni'n eu defnyddio'n aml ym mha bynnag gyd-destun yr ydym yn defnyddio geiriau. Felly, beth bynnag yw'r thema, maen nhw'n gwybod bod y geiriau yna'n dod wrth ddarllen neu wrando. Ac yn y pendraw, rydyn ni eisiau sicrhau ymgysylltiad y dysgwyr fel eu bod yn gallu cyrraedd pwynt o asesu a dysgu adolygol. Achos os nad ydyn nhw'n frwd ac os nad ydyn nhw'n weithredol, yna dydyn nhw ddim yn mynd i ddysgu.*

*Po fwyaf maen nhw'n ymgysylltu, y mwyaf mae'r peth yn dod yn fath o arfer ailadroddus, ac fe fyddan nhw'n tyfu'n fwyfwy hyderus ac felly'n gallu llwyddo'n well mewn asesiad adolygol hefyd. Rydyn ni'n defnyddio dull dadadeiladu testun ar gyfer darllen a gwrando. Pa eiriau allwch chi gydio ynddyn nhw wrth i chi wrando? Pa eiriau yn y testun allwch chi eu tynnu allan? Sut ydych chi'n gwybod hynny? Pa seiniau?*

*Mae'n rhaid i ni gael y trochiad yna hefyd. Ac fe rodda i enghraifft i chi o'r math o beth rydyn ni'n gwneud. Felly, ar gyfer ein cwricwlwm newydd ar gyfer Blwyddyn 7 rydyn ni'n defnyddio straeon tylwyth teg (ar ddechrau Blwyddyn 7). Rydyn ni'n defnyddio stori 'Eira Wen'; ac un o'r pethau cyntaf rydyn ni'n rhoi iddyn nhw (ar ôl iddyn nhw gyflwyno'u hunain) yw adroddiad byr: 'Mae Eira Wen ar goll', 'mae hi'n gwisgo'r peth a'r peth', disgrifiad ohoni ayb. A does dim geirfa ganddyn nhw o gwbl. A holl bwynt yr ymarfer yw - beth maen nhw'n gallu ei ddeall, beth maen nhw'n gallu ei greu? Ac yna rydyn ni'n adeiladu ar hynny drwy edrych ar eirfa gryno - fel bod gyda ni eiriau y gellir eu defnyddio fel offer i ddeall ystyr neu sylwedd y testun, a sut mae angen i ni feddwl am gyd-destun y darn. Mae'n rhaid meddwl am gliwiau eraill hefyd, felly rydyn ni'n cynnwys yr holl strategaethau darllen yna yn yr ymarfer, ac mae'n gweithio'r un peth gyda'r gwrando."*

Wrth drafod sail resymegol defnyddio gweithgareddau o'r fath, pwysleisiodd yr athro pa mor angenrheidiol yw'r arferion hyn i wrthsefyll yr heriau a'r ôl-effeithiau a ddeilliodd o golli cymaint o addysgu a dysgu wyneb yn wyneb oherwydd y pandemig - sy'n dal i effeithio ar ymgysylltiad a gallu disgyblion i ddysgu:

*"Rydyn ni'n gwybod bod sgwrsio a siarad yn bwysig i ail-sefydlu lefelau siarad, deall a sgiliau iaith; a'r holl weithgareddau dych chi'n eu gwneud fel: 'cipio brawddegau', 'gwib-fachu', 'holi wyneb yn wyneb', 'arddywediad gwib' - yr holl bethau bach yna sy'n sail i waith Cyfnod Allweddol 3 ac nad ydyn nhw wedi eu cael ers dwy flynedd."*

Yng ngolwg yr athro yma, ceir tystiolaeth o effaith yr arferion hyn yn y gwelliant a welir ym mherfformiad iaith y dysgwyr a newidiadau mewn agweddau pan gydnabyddir yr hyn **'y gall'** disgyblion ei gyflawni drwy eu haddysg iaith:

*"Rydyn ni wedi gweld effaith aruthrol yng Nghyfnod Allweddol 3 o ran y dirywiad yng ngallu disgyblion i ysgrifennu darnau estynedig - ac mae hyd yn oed ysgrifennu yn her iddyn nhw weithiau."*

*" [yn allweddol i ysgogi'r dysgwr]...mae cael cyfle i rannu canlyniadau'r dysgu, cael clod gan eu cyd-ddisgyblion, cael eu cyffroi, a chael cydnabyddiaeth o werth yr hyn y maen nhw'n ei wneud."*

Yn ogystal â thanio brwdfrydedd dysgwyr i ddysgu ieithoedd, mae ail-sefydlu lefelau hyder y dysgwyr yn eu defnydd o iaith a dathlu eu cynnydd hefyd yn help i herio tybiaethau rhieni bod ieithoedd yn bynciau 'rhy anodd' i ddysgwyr allu ennill graddau uchel ynddynt.

## Y DOSBARTH CYNRADD LLUOSIEITHOG: GOSOD Y SEILIAU AR GYFER DYFODOL IEITHYDDOL GYFOETHOG

Yn y rhan yma rydym yn trabod enghreifftiau o arfer rhagorol mewn ysgol gynradd sy'n nodi bod ganddi amgylchedd ysgol luosieithog. Buom yn siarad ag athro sydd wedi bod yn gweithio mewn ysgolion cynradd am bron i ddegawd ac sy'n Arweinydd Ieithoedd yn yr ysgol dan sylw. Mae hybu dyfodol ieithoedd yn galw am ddarparu cyfleoedd addysgu a dysgu ieithoedd ystyrlon i ddysgwyr, athrawon a chynorthwywyr dosbarth. Mae'r athro yma hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd 'dull gweithredu ysgol-gyfan' ar gyfer ieithoedd a gofynion y Cwricwlwm Newydd - lle mae'r cysylltiad gyda rhieni a gwarchodwyr, adnoddau a chynllunio ar gyfer y dyfodol yn allweddol.

Wrth sôn am greu mwy o gyfleoedd i brofi a defnyddio gwahanol ieithoedd a mwy o gyfleoedd addysgu a dysgu ieithoedd, soniodd yr athro am sut y maent yn defnyddio dull *'Siarad Tair'* yn yr ysgol (lle defnyddir tair iaith yn y dosbarth). Mae'n disgrifio'r drefn ar gyfer defnyddio sawl iaith yn y dosbarth a'r nod cyffredinol wrth wneud hynny:

> *"Pan ddechreuon ni roeddem yn arfer gwneud 20 munud o waith llafar yn Sbaeneg bob wythnos. Yna, pan roedd y plant wedi dod ychydig yn fwy hyderus, fe gyflwynom ni* 'Siarad Tair'. *Mewn sesiwn 'Siarad Tair' mae'r plant yn defnyddio Sbaeneg, Cymraeg a Saesneg. Felly, os gofynnir cwestiwn iddyn nhw yn Sbaeneg, maen nhw'n ateb yn Sbaeneg; os gofynnir rhywbeth yn Gymraeg, maen nhw'n ymateb yn Gymraeg. Y bwriad cyntaf yw cael y plant i ddechrau gwneud cysylltiadau rhwng gwahanol ieithoedd, gweld y patrymau mewn ieithoedd; a dydyn ni ddim mewn difrif yn disgwyl i'n plant bod yn rhugl pan fyddan nhw'n ein gadael ni. Rydyn ni eisiau iddyn nhw bod yn dditectifs iaith. Rydyn ni eisiau tanio cariad at ieithoedd ynddyn nhw, a'u hysbrydoli i gamu ymlaen a chymryd iaith yn yr ysgol uwchradd neu ar gyfer Lefel A, neu hyd yn oed ddysgu yn eu hamser eu hunain ac er eu pleser eu hunain."*

O ran cynnwys, gall dosbarthiadau *'Tair Iaith'* ganolbwyntio ar siarad yn unig - er enghraifft, ymateb i gyfarchion. Maent hefyd yn rhoi cyfle i feithrin dealltwriaeth traws-ddiwylliannol - er enghraifft, gwahanol fwydydd a threfn ac amser prydau bwyd, a datblygu gwybodaeth draws-gwricwlaidd am fapiau a'r tywydd. Nododd yr athro bod yr ysgol wedi cael cefnogaeth gadarn gan rieni a gwarchodwyr i'r dull *'Siarad Tair'* o addysgu a mentrau dysgu ieithoedd i'r teulu cyfan:

> *"Mae ein rhieni i gyd yn gefnogol iawn o ran addysgu a dysgu ieithoedd. Does neb wedi cwestiynu pam ein bod ni'n addysgu Sbaeneg, na'r rheswm y tu ôl i hynny. Fe wnes i gynnal cwrs ar-lein lle ro'n i'n addysgu Sbaeneg i ddechreuwyr - ar gyfer teuluoedd. Felly, roedd y plant yn logio ymlaen gyda'u rhieni ac fe ddysgon ni'r elfennau sylfaenol i'r rhieni a'r plant. Roedden ni'n gwneud pethau fel canu dyddiau'r wythnos. Fe wnaethon ni'r wyddor a chwpl o gemau sillafu. Fe wnaethon ni liwiau, rhifau, bingo. Ac roedd hynny'n beth da iawn achos dw i'n credu bod y rhieni wedi mwynhau a'u bod nhw'n meddwl 'O waw! Ma' hyn yn wych. Dw i'n wirioneddol hapus bod fy mhlentyn i'n dysgu hyn yn yr ysgol'. Does dim achos wedi codi lle mae rhywun wedi cwestiynu'r peth na chicio yn ei erbyn."*

Wrth sôn am wreiddio arfer addysgu a dysgu ieithoedd drwy'r ysgol gyfan, soniodd yr athro am strategaeth addysgu ieithoedd drwy straeon. O ran adnoddau, bu'n rhaid prynu fersiynau o straeon cynradd adnabyddus mewn gwahanol ieithoedd - i alluogi athrawon a disgyblion i dyfu'n fwyfwy hyderus wrth ddysgu ieithoedd:

> *"Mae addysgu drwy ddefnyddio stori wedi bod yn rhywbeth dw i wedi cael adborth da iawn amdano gan fy staff...Fe lwyddais i gael gafael ar nifer o lyfrau stori sy'n defnyddio Sbaeneg eithaf sylfaenol - fel y byddech yn disgwyl eu cael mewn ysgolion meithrin neu ddosbarthiadau derbyn. Fe ddes â nhw yn ôl yma i'r ysgol. Mae pob dosbarth yn gwneud un stori yn ystod y flwyddyn, ar wahanol adegau. Mae'r athro'n darllen tudalen ar y tro yn Sbaeneg, ac maen nhw'n gorbod ceisio dad-godio'r geiriau. Maen nhw'n pigo'r geiriau maen nhw'n eu hadnabod allan; maen nhw'n pigo'r elfennau cytras y maent yn eu hadnabod; ac maen nhw'n edrych ar y lluniau. Maen nhw'n ceisio dod i gasgliad am yr ystyr. Ac roedd e'n beth arbennig o dda achos roedd e'n ffordd ddilys o ddysgu'r iaith - straeon fel 'Hansel a Gretel', 'Y Lindysyn Llwglyd Iawn', 'Y Pysgodyn Enfys', 'Ulw Ela', 'Yr Hwyaden Fach Hyll'. Gan eu bod yn straeon cyfarwydd iddyn nhw yn Saesneg a/neu Gymraeg, ro'n nhw'n gallu bod yn hyderus, chi'n gwybod - a rhoi cynnig ar ddyfalu. Ac mae hynny wedi bod yn beth da iawn."*

Mae clustnodi mannau ac adnoddau penodol mewn ysgolion ar gyfer gweld, clywed a defnyddio ieithoedd yn rhoi mwy o gyfle i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau dysgu iaith eu hunain. Yn yr

ysgol gynradd hon, cabodd adnoddau dysgu iaith fel Cwtch Cymraeg eu hymestyn i ddatblygu labordai iaith sy'n cynnwys adnoddau mewn gwahanol ieithoedd. Ymysg yr arferion eraill sy'n amlygu dull gweithredu ysgol gyfan o ran lluosieithrwydd mae: cysoni blaenoriaethau addysgu, cefnogaeth gadarn i ddatblygu ieithoedd, a chyfleoedd i'r holl staff uwchsgilio:

> *"Gan bod Sbaeneg yn newydd i'r ysgol gyfan, fe ddechreuon ni arni drwy gael pawb i ddysgu cyfarchion, lliwiau a rhifau. Ond wedyn fe symudon ni ymlaen, roedd angen i ni ddangos cynnydd a datblygiad drwy'r ysgol gyfan."*

> *"Bellach rydyn ni'n cyfatebu'r Sbaeneg gyda'r hyn yr ydym yn ei addysgu yn Gymraeg. Felly er enghraifft, pan ddown ni nôl yn ym mis Medi, os bydd dosbarth yn dysgu am y tywydd yn Gymraeg, byddan nhw'n gwneud hynny yn Sbaeneg hefyd - fel eu bod yn gallu gwneud y sesiynau 'Tair Iaith' yna."*

> *"Mae llawer o'n staff wedi mynychu gwersi iaith lle'r ydym wedi gwneud Sbaeneg i ddechreuwyr a Sbaeneg canolradd.....rydyn ni newydd drefnu i gynorthwywyr addysgu ymuno â ni ac i rai aelodau mwy newydd o'r staff i fynd am hyfforddiant.... achos nawr bod ein holl athrawon wedi cael hyfforddiant, y cam nesaf yw gwella [sgiliau iaith] y cynorthwywyr addysgu."*

Wrth drabod yr effaith y gallai ysgolion cynradd lluosieithog eu cael yng nghyd-destun y Cwricwlwm Newydd i Gymru, roedd yr athro yma'n credu y gallant bod yn gyfrwng i osod seiliau cadarn ar gyfer dyfodol ieithyddol gyfoethog. Wrth gloi, dywedodd "Mae angen i ni addysgu ychydig ohono, a'i addysgu'n dda" a chydnabod bod cydweithio rhwng y cynradd a'r ôl-gynradd i helpu pontio a chynnal y cymhelliant i ddysgu ieithoedd yn allweddol.

# Casgliad

**Mae ysgolion cynradd yng Nghymru wedi dechrau'n dda wrth ymgorffori Ieithoedd Rhyngwladol yn eu dosbarthiadau. Mae angen mwy o ymchwil i weld i ba raddau y mae lluosieithrwydd yn cael ei wireddu mewn difrif, ond cydnabyddir ei bod dal yn gynnar o ran hynny.**

Er gwaetha'r ffaith bod y naratif yn y wasg ac mewn ysgolion yn pwysleisio'r ffaith bod Ieithoedd Rhyngwladol yn bwysig, nid yw'n hyn wedi ysgogi newid cadarnhaol yn y system uwchradd drwyddi draw. Mae angen ail ystyried beth sy'n cymell plentyn, achos mae naratifau cadarnhaol yn cael eu herio gan broblemau systemig. Wrth ystyried ein data rydym o'r farn bod angen rhaglen waith ym maes Addysg Gyrfaoedd i helpu pobl ifanc weld gwerth Ieithoedd Rhyngwladol ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol, ac i'w galluogi i wneud dewisiadau gwybodus ar adegau pontio allweddol yn eu bywydau; er enghraifft, mae'r data a gasglwyd gennym am Gyfnod Allweddol 4 yn dangos bod nifer y dysgwyr sy'n dewis astudio Iaith Ryngwladol ar gyfer TGAU neu gymhwyster Lefel 2 cyfatebol yn isel (gweler Tabl 13); mae'r duedd yma'n parhau ar gyfer Lefel A - fel y dengys y dirywiad yn y nifer sy'n dewis Ffrangeg yn arbennig (gweler Tabl 20). Wrth edrych yn ôl ar adroddiadau Tueddiadau Ieithoedd blaenorol, rydym hefyd yn gwybod bod angen i gymwysterau apelio at bobl ifanc. Yn ogystal, mae angen gwneud yn siwr bod llwybrau datblygu i ddysgwyr academaidd a dysgwyr galwedigaethol ar gael, wedi'u sicrhau ac yn hygyrch i bawb.

Mae ein hymchwil wedi dangos bod arfer rhagorol wrth addysgu Ieithoedd Rhyngwladol ar waith mewn llawer o ysgolion a dosbarthiadau. Mae athrawon yn gweithio'n galed i annog pobl ifanc i barhau i astudio Ieithoedd Rhyngwladol, ond mae gallu athrawon i greu newid cadarnhaol yn y maes cwricwlwm yma yn cael ei gyfyngu gan y system y maent yn addysgu ynddi. Mae ein cyfweliadau gydag athrawon yn amlygu arferion rhagorol sy'n mynd i'r afael â rhai o'r prif heriau sy'n eu hwynebu wrth geisio addysgu ieithoedd mewn ysgolion, gan gynnwys diffyg amserlennu gwersi'n aml a chyson. Er enghraifft, yn y cyfweliad am arfer gorau mewn dosbarth TGAU mae'r athro/athrawes a holwyd yn nodi y bu'n rhaid iddynt eirioli dros ieithoedd yn uniongyrchol i sicrhau bod disgyblion yn cael profiad rheolaidd o ieithoedd. Tra bod yr holl gyfweliadau a gynhaliwyd gydag athrawon yn cynnig nifer o enghreifftiau o arfer rhagorol, mae'r heriau a nodir ganddynt, gan gynnwys cael at ariannu i ddarparu profiadau diwylliannol, tripiau a chynorthwywyr iaith, yn dangos yr angen eto fyth am adolygiad systemig o ddarpariaeth addysg ieithoedd - i roi gwell cefnogaeth i addysgu Ieithoedd Rhyngwladol ar lefel gynradd ac ôl-gynradd, a thynnu'r pwysau oddi ar ysgwyddau athrawon i ddod o hyd i atebion creadigol.

Er bod llawer o arferion addysgu ieithoedd cadarnhaol ar waith yn ysgolion a cholegau Cymru, mae data 2023 yn awgrymu bod angen dull gweithredu cydgysylltiedig ar gyfer addysg Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghymru. Er enghraifft, nod strategaeth cynllun Dyfodol Byd-eang yw cefnogi amlieithrwydd yn system addysg Cymru ac annog astudio ieithoedd drwy ddod â rhanddeiliaid ynghyd i weithio mewn modd cydlynol i fynd i'r afael â'r dirywiad yn y nifer sy'n dewis astudio ieithoedd. Mae amcanion allweddol eraill Dyfodol Byd-eang yn cynnwys rhoi cefnogaeth i ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol, gwella'r gefnogaeth a'r cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael i athrawon drwy fentrau ar y cyd (ee gyda'r consortia rhanbarthol, partneriaethau a Chynllun Mentora Myfyrwyr Ieithoedd Tramor Modern), yn ogystal â thaclo agweddau negyddol at ieithoedd.

Menter arall a lansiwyd yn ddiweddar (yn 2023) i roi cefnogaeth bellach i ddarpariaeth ieithoedd yn y Deyrnas Unedig a chreu cysylltiadau rhwng y darpariaethau hynny yw 'Porth Ieithoedd' *(Languages Gateway).* Mae'r wefan newydd hon yn ategu'r datblygiadau parhaus diweddaraf mewn strategaethau cenedlaethol ar gyfer ieithoedd ac mae'n borth cynhwysfawr o wybodaeth am ieithoedd yn y Deyrnas Unedig. Cenhadaeth y wefan yw helpu i hybu addysgu a dysgu ieithoedd ledled y D.U. drwy gynyddu ymwybyddiaeth a hwyluso mynediad i gyfleoedd a gwybodaeth sy'n bodoli'n barod, a thrwy feithrin cysylltiadau rhwng gwahanol sectorau. Bwriad y wefan yw cynnig siop un stop ar gyfer popeth cysylltiedig ag addysgu a dysgu ieithoedd yn y Deyrnas Unedig, gan hwyluso cysylltiadau rhwng unrhyw un sydd â diddordeb mewn ieithoedd: dysgwyr, teuluoedd, grwpiau cymunedol, arweinwyr ysgol, academyddion, llunwyr polisi a chymdeithasau pynciau. Bwriedir i'r wefan bod yn agored a chynhwysol - yn offeryn i bawb ei ddefnyddio a chyfrannu iddo, i feithrin ymdeimlad cryf o berchnogaeth ar y cyd a phartneriaeth ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat. Gyda golwg ar yr amrywiaeth eang o bobl sy'n ymwneud â chymunedau ieithoedd y Deyrnas Unedig, cabodd y wefan ei chynllunio i gasglu gwybodaeth ynghyd mewn un man, ac yna i gyfeirio ymwelwyr at y cynnwys sydd o ddiddordeb iddynt - gan gynnwys gwybodaeth benodol am addysgu a dysgu Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghymru.

Yn gyffredinol mae adroddiad *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2023* yn nodi cynnydd cadarnhaol o ran y nifer o ysgolion cynradd a ymatebodd sy'n addysgu Ieithoedd Rhyngwladol ers cyflwyno'r Cwricwlwm Newydd i Gymru yn 2022. Mae data 2023 yn dangos bod angen rhoi sylw i hyfedredd staff mewn Ieithoedd Rhyngwladol - testun pryder i 67 y cant o'r ysgolion cynradd a ymatebodd. Mewn ysgolion uwchradd, Ffrangeg yw'r iaith a addysgir fwyaf yng Nghyfnod Allweddol 3 ymysg yr ysgolion a ymatebodd, gyda Sbaeneg yn ail ac yna Almaeneg. Er bod polisïau gwahanol ysgolion yn amrywio, nododd 51 y cant o'r ysgolion a ymatebodd nad yw pob un o'u dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4 yn gallu astudio Iaith Ryngwladol oherwydd cyfyngiadau amserlennu. O ran y ddarpariaeth ôl-16 nododd athrawon bod gan ddysgwyr argraff bod arholiadau Lefel A mewn Ieithoedd Rhyngwladol yn anodd, ac y gall hynny eu cymell i gefni ar y pwnc. Mae'n amlwg o'r data a gasglwyd gennym bod athrawon yn gweithio'n galed i addysgu ac annog dysgwyr i astudio Ieithoedd Rhyngwladol ar lefel gynradd ac ôl-gynradd. Drwy barhau i gydweithio i greu dull gweithredu mwy cydlynol ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol, mae cyfle i wella addysgu a dysgu ieithoedd i holl bobl ifanc Cymru yn y dyfodol.

# Llyfryddiaeth gyfeiriadol

Ayres-Bennett, W., Hafner, M., Dufresne, E. and Yerushalmi, E. (2022) *The economic value to the UK of speaking other languages.* RAND Corporation.

British Council. (2017) *Languages for the Future.* [Ar-lein]: Ar gael yma: https://www.britishcouncil.org/research-policy-insight/policy-reports/languages-future-2017

Collen, I., Liu, M., ac O'Boyle, A. (2022) *Tueddiadau Ieithoedd Cymru.* [Ar-lein] Ar gael yma: https://wales.britishcouncil.org/sites/default/files/language_trends_wales_2022_-_welsh.pdf

Collen, I., Henderson, L., Liu, M., O'Boyle, A., a Roberts, J. (2023) *Languages Provision in UK Further Education.* The British Academy. [Ar-lein] Ar gael yma: https://www.thebritishacademy.ac.uk/documents/4540/Languages_Provision_in_UK_Final_v2.pdf

Graham, S., Courtney, L., Marinis, T. a Tonkyn, A. (2017) Early Language Learning: The Impact of Teaching and Teacher Factors. Language Learning, 67: 922-958. https://onlinelibrary.wiley.com/doi/10.1111/lang.12251

Llywodraeth Cymru (2021a) Datganiad Ysgrifenedig: Estyn yr hawl i gael Prydau Ysgol am Ddim i bob plentyn ysgol gynradd [Ar-lein] Ar gael yma: https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-estyn-yr-hawl-i-gael-prydau-ysgol-am-ddim-i-bob-plentyn-ysgol-gynradd (Cyrchwyd 12 Medi 2023)

Llywodraeth Cymru (2021b) Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. [Ar-lein] Ar gael yma: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu/ (Cyrchwyd 9 Awst 2023)

Llywodraeth Cymru (2023a) Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd (UPFSM). [Ar-lein] Ar gael yma: https://www.llyw.cymru/prydau-ysgol-am-ddim-i-holl-blant-ysgolion-cynradd-upfsm (Cyrchwyd 12 Medi 2023)

Llywodraeth Cymru (2023b) Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion. [Ar-lein] Ar gael o: https://www.llyw.cymru/canlyniadaur-cyfrifiad-ysgolion (Cyrchwyd 9 Awst 2023)

# Atodiad

British Council England: https://www.britishcouncil.org/

British Council Northern Ireland: https://nireland.britishcouncil.org/

British Council Cymru: https://wales.britishcouncil.org/

CCD – Consortiwm Canolbarth y De: https://www.cscjes.org.uk/

Cerdd Iaith: https://cerddiaith.com/

Gwasanaeth Cyflawni Addysg: https://sewaleseas.org.uk/cymraeg/

Dyfodol Byd-eang: https://www.llyw.cymru/dyfodol-byd-eang-cynllun-i-wella-hyrwyddo-ieithoedd-tramor-modern

Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarth Gogledd Cymru - GwE: https://www.gwegogledd.cymru/

Porth Ieithoedd / Languages Gateway: https://www.thelanguagesgateway.uk/

Language Gym: https://www.language-gym.com/

La Jolie Ronde: https://www.lajolieronde.co.uk/

Mentora Ieithoedd Tramor Modern: https://mflmentoring.co.uk/cy/

Cyngor Castell Nedd Port Talbot: https://beta.npt.gov.uk/cy/ysgolion-a-dysgu/

Partneriaeth: https://www.partneriaeth.cymru/?_locale=cy

Power Language: https://powerlanguage.net/#custom_html-7

Llwybrau at Ieithoedd: https://routesintolanguagescymru.co.uk/cy/croeso/

Twinkl: https://www.twinkl.co.uk/

UK-German Connection: https://ukgermanconnection.org/

BRITISH COUNCIL

www.britishcouncil.org